# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 12FED MEDI, 2024**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**NODER: Cynhelir Sesiwn Briffio i'r Aelodau am 10:00yb**

Lleoliad

**Hybrid – Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Elin Hywel | Kim Jones | Linda Morgan |
| Edgar Wyn Owen | Llio Elenid Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | Rhys Tudur | Jina Gwyrfai |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Elfed Powell Roberts |
| Peter Thomas | Rob Triggs |
| Gruffydd Williams | |

## Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024 fel rhai cywir.

**5. FFIOEDD PARCIO** 11 - 24

I graffu diweddariadau o fewn y Gwasanaeth Parcio.

**6. DATBLYGIADAU YN Y MAES CLUDIANT CYHOEDDUS** 25 - 38

I dderbyn diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus.

**7. GWASANAETHAU GWASTRAFF AC AILGYLCHU** 39 - 55

I dderbyn diweddariad ar y rhaglen waith a’r materion sydd angen sylw ym meysydd gwastraff ac ailgylchu.

**8. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN)** 56 - 71

I dderbyn diweddariad ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn).

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** 72 - 73

Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 16 MAI 2024**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**

Stephen Churchman, Robert Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Elin Hywel, Annwen Hughes, Jina Gwyrfai, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Beca Roberts, Arwyn Herald Roberts, Elfed Powell Roberts, Rob Triggs, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), ac Heledd Fflur Jones (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio, Adran Amgylchedd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC) a Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Llio Elenid Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2024/25.**

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Kim Jones, Linda Morgan a Peter Thomas.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

   Dim i’w nodi.

6. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2024, fel rhai cywir.

**7. CYFLWYNO ADRODDIAD YMGYSYLLTU CYHOEDDUS: CYFNOD YMGYSYLLTU RHYBUDD CYFARWYDDYD ERTHYGL 4**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd ac Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio.

Atgoffwyd yr Aelodau bod angen i'r Cyngor gyflawni proses pedair cam wrth ymdrechu i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 o fewn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Nodwyd mai'r cam cyntaf oedd gosod Rhybudd Papur Cyfiawnhau Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Manylwyd mai ail gam y broses oedd cynnal cyfnod ymgysylltu cyhoeddus. Eglurwyd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ym mis Awst 2023 am gyfnod o 6 wythnos gan gynnwys holiaduron, llythyru 52,000 o dai a holiadur pwrpasol ar wefan y Cyngor. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r gwasanaeth am sicrhau cyfnod ymgynghoriad a oedd yn ddwbl y gofyn statudol. Rhannwyd canmoliaeth gyda'r Adran am ddenu cynifer o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan eu hannog i rannu arferion da eu profiad gydag adrannau eraill y Cyngor wrth iddynt ymgymryd ag ymgynghoriadau cyhoeddus yn y dyfodol. Tynnwyd sylw mai nifer isel iawn o bobl ifanc a ymatebodd i'r ymgynghoriad a chydnabuwyd bod ennyn diddordeb pobl ifanc i ymateb i ymgynghoriadau yn her sy'n wynebu'r Cyngor.

Adroddwyd bod y Cyngor bellach wedi cyrraedd trydydd cam y broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd gan ei fod yn ystyried ymatebion y cyfnod ymgynghori. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi derbyn 3902 o ymatebion. Eglurwyd bod y Cyngor wedi dyrannu ei ymateb i sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad i mewn i themâu ac is-themâu o fewn yr adroddiad. Ymhelaethwyd nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi ei ganfod sydd yn cyfiawnhau peidio â chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl yn seiliedig ar asesiad o'r ymatebion i'r sylwadau sydd wedi ei gyflwyno yn dilyn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus, ystyriaeth o'r dystiolaeth sydd yn y papur cyfiawnhad Erthygl 4 a'r gwaith ymchwil pellach a wnaed mewn ymateb i rai o'r sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad.

Rhoddwyd ystyriaeth i allu'r Cyngor i weithredu'r cyfarwyddyd pe byddai'n cael ei gyflwyno. Ystyriwyd os byddai un dull canolog o weithredu a gorfodaeth yn effeithiol yng Ngwynedd. Nodwyd nad oes gan y Cyngor llawer o reolaeth ar faterion newid dosbarth defnydd tai ar hyn o bryd ac felly pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gael ymyrraeth gadarn er mwyn gwarchod y stoc dai tra hefyd yn gwarchod cymunedau a'r anghenion tai a welir mewn amrywiol gymunedau ledled y Sir. Oherwydd hyn, cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi cwblhau ymchwil manwl ar ddulliau addas o sefydlu prosesau ymyrraeth ariannol, cynllunio, cofrestriadau a thrwyddedu a chadarnhawyd bod angen gweithdrefnau amrywiol ar gyfer y rhain yn hytrach na un system ganolog er mwyn delio gyda sefyllfaoedd yn ddigonol. Pwysleisiwyd bod y cyfarwyddyd yn ffocysu ar y defnydd o'r eiddo ac unrhyw newid i ddefnydd, nid ei berchnogaeth ac felly ni fydd rhaid i unigolion dderbyn caniatâd cynllunio wrth brynu tai.

Cydnabuwyd nad yw'r Cyngor wedi darparu asesiad effaith economaidd yn benodol ar golli incwm o'r farchnad eilaidd i'r sector gwestai,  bobl sy'n gwario arian yn y siopau a'r cyfyngiadau sy'n cynnig cyfleoedd busnes a chyflogaeth i bobl. Er hyn, cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cwblhau asesiad effaith trylwyr ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol. Ymhelaethwyd bod polisïau twristiaeth a'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi eglurder ar nifer o bwyntiau i'w hystyriaeth megis darparu diffiniad o ystyr 'gormodedd' ac yn rhannu ystyriaethau am warchod stoc dai cymunedau Gwynedd. Mewn ymateb i ymholiad ar gysyniad darparwyr morgeisi lleol byddai cyflwyno'r cyfarwyddyd yn cymhlethu neu atal ceisiadau morgeisi, cadarnhaodd y swyddogion eu bod wedi bod mewn cyswllt gyda darparwyr morgeisi nifer o weithiau dros y misoedd diwethaf ac nid ydynt wedi gallu darparu tystiolaeth o sut byddai'r cyfarwyddyd yn effeithio ar allu i ganiatáu morgeisi yn negyddol. Pwysleisiwyd na

ragwelir hyn fel rhwystr i gymeradwyo'r cyfarwyddyd a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y mater hwn cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

Mewn ymateb i ymholiad os yw'r asesiadau economaidd yn ddigonol a digon manwl o ystyried nad oedd asesiad effaith economaidd penodol, cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth barhaus gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor er mwyn ystyried a datrys unrhyw risgiau sy'n codi. Oherwydd hynny, ystyriwyd bod y Cyngor yn rheoli risgiau sy'n codi mor effeithiol a bod modd. Pe dymunai'r Pwyllgor, gellid gofyn i'r cyfreithwyr am gadarnhad pellach o'r risg yng nghyswllt asesiad o'r effaith economaidd. Nodwyd hefyd bod y Polisi Cynllunio cyfredol yn rhoi ystyriaeth i letyau gwyliau ac yn gwarchod stoc dai'r Sir. Sicrhawyd bydd gwybodaeth am effaith Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gynnwys o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol os byddai'n cael ei gymeradwyo gyda'r weledigaeth o addasu'r polisïau yn y dyfodol i roi eglurder ar weithrediad Erthygl 4 mewn manylder. Sicrhawyd bydd data trylwyr wedi cael ei gasglu cyn newid polisïau'r Cyngor yn ogystal â fframwaith monitro gyda dangosyddion penodol er mwyn asesu effaith y cyfarwyddyd. Adroddwyd y gobeithir i'r cyfarwyddyd ddod i rym ar 1 Medi 2024 ac felly bydd hyn yn caniatáu amser i'r Cyngor gasglu data ac ystadegau priodol.

Sicrhawyd bod y gwasanaeth yn ymchwilio i sgil effeithiau posib cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 o fewn awdurdod cynllunio Gwynedd er mwyn bod yn ymwybodol o ystyriaethau ychwanegol os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cyfarwyddyd. Gobeithiwyd bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymwybodol o unrhyw heriau fel maent yn codi er mwyn delio â hwy yn effeithiol.

Rhoddwyd ystyriaeth i heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor i'r dyfodol gan gynnwys adnoddau a swyddogion i fonitro a gorfodi'r cyfarwyddyd. Ymhelaethwyd os oes modd ailedrych ar drefniant ffioedd torri amodau cynllunio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cadw eu gafael ar yr arian hynny. Sicrhawyd bod swyddogion yn ystyried materion o'r fath gan nodi eu bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y mater. Cydnabuwyd bod y gwasanaeth angen cymorth ychwanegol gan gyfeirio at gynlluniau recriwtio a ddatblygwyd i swyddogion fod yn y rolau erbyn 1 Medi yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfarwyddyd.

Nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod fframwaith monitro gan gynnwys mesurau monitro mewn lle pe cyflwynir y cyfarwyddyd.

Awgrymwyd y dylid darparu taflen wybodaeth i Gynghorwyr yn cynnwys gwybodaeth o ran y newid yn y byrdymor a'r hirdymor yn sgil gweithredu'r cyfarwyddyd. Nodwyd pwysigrwydd cyfathrebu i'r cyhoedd beth fyddai gweithredu'r cyfarwyddyd yn ei olygu.

Diolchwyd i Awdurdodau Lleol cyfagos ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am eu cydweithrediad clos drwy gydol y broses hyd yma. Cadarnhawyd y dymunir i'r berthynas hon barhau i'r dyfodol gan sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu er mwyn cyfarch anghenon cymunedol yn effeithiol.

Eglurwyd byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet gyda sylwadau'r Pwyllgor hwn er mwyn iddynt wneud penderfyniad terfynol ar gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 neu beidio. Manylwyd bydd rhaid i'r Cyngor weithredu ar roi cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad o gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn unol â gofynion statudol. Ymhelaethwyd y gobeithir cynnal sesiynau gwybodaeth i aelodau etholedig y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth fanwl am y cyfarwyddyd.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Derbyn yr adroddiad ac argymell i'r Cabinet y dylid cadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4.**

**(ii) Gofyn i'r Aelod Cabinet Amgylchedd gyfleu'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth i'r Cabinet.**

**8. CLWYF GWYWIAD YR ONNEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran.

Cyfeiriwyd at ddau wall yn yr Adroddiad, gan gywiro bod 1550 o goed risg uchel wedi cael eu torri neu thocio hyd yma, o'i gymharu â'r ffigwr o 710 o goed fel nodwyd ym mharagraff 3.4 yr Adroddiad. Aethpwyd ymlaen i nodi mai tystiolaeth ail law sy'n awgrymu bod clwyf gwywiad yr onnen yn peri llai o risg wrth i amser fynd rhagddo, parthed y wybodaeth a gyflwynwyd ar ddechrau paragraff 5.1 o'r Adroddiad.

Eglurwyd bod clwyf gwywiad yr onnen wedi ymledu i Gymru ers nifer o flynyddoedd ac amcangyfrifwyd bydd 80% o goed ynn yn cael eu heffeithio'n andwyol ganddo. Cadarnhawyd bod tîm wedi cael ei sefydlu o fewn yr adran er mwyn delio gyda'r heriau mae'n ei achosi. Pwysleisiwyd bod ymateb i'r clwyf yn flaenoriaeth ar gofrestr risg corfforaethol y Cyngor. Manylwyd bod y Cyngor wedi ariannu archwiliad cychwynnol yn 2020 er mwyn gweld effaith y clwyf yn yr ardal ar stoc goed y Cyngor. Cydnabuwyd bod risg uchel gan fod nifer uchel o goed eisoes wedi cael eu heintio. O ganlyniad, penodwyd tîm arbenigol pwrpasol i ymchwilio i'r haint ar ffyrdd a thiroedd y Cyngor.

Adroddwyd mai un o brif rolau'r tîm yw cynnal archwiliadau ar stoc goed y Cyngor ar ffyrdd a thiroedd y Sir. Nodwyd bod y tîm yn gwneud y gwaith hwn eu hunain ar brydiau ond hefyd yn defnyddio archwilwyr arbenigol er mwyn sicrhau bod pob ardal yn cael archwiliadau yn amserol, gan bwysleisio nad yw unrhyw archwilwyr allanol yn gweithredu ar goed sydd wedi eu heintio. Cadarnhawyd mai dyma'r trefniant oherwydd bod yr Adran yn gyfrifol am oddeutu 3,000km o ffyrdd yn ogystal â thiroedd eraill. Manylwyd bod yr Adran wedi datblygu system blaenoriaethu er mwyn cynnal archwiliadau gan sicrhau bod y flaenoriaeth uchaf yn cael ei roi i goed ynn sydd ger ysgolion, ffyrdd, mynwentydd, parciau a lleoliadau cyffelyb. Nodwyd bod y tîm yn gyfrifol am drin y coed os yw'r archwiliadau yn nodi eu bod wedi eu heintio. Cadarnhawyd bod y rhain yn mynd ar raglen waith y tîm gan sicrhau bod yr achosion mwyaf difrifol yn cael eu blaenoriaethu.

Rhannwyd diweddariad bod yr Adran wedi comisiynu Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddatblygu'r defnydd o ddrôn i gynnal archwiliadau, gan fod modd iddynt weithio ar raddfa eang iawn na gweithwyr ar droed. Nodwyd bod canlyniadau yn foddhaol iawn ar hyn o bryd a gobeithiwyd bydd hyn yn ddull bydd yn cael ei ddefnyddio'n gyson er mwyn cynnal archwiliadau ar goed. Ymhelaethwyd bod y tîm wedi bod mewn cyswllt gyda Choleg Glynllifon ac mae disgyblion yno wedi cael hyfforddiant ar dechnoleg newydd yr un pryd a'r tîm ar y dulliau technolegol newydd o archwilio am yr haint.

Pwysleisiwyd nad yw'r adran yn torri'r coed i lawr unwaith maent wedi eu heintio. Adroddwyd bod y tîm yn ceisio achub gymaint â bod modd drwy docio digon arnynt fel eu bod yn ddiogel i'r cyhoedd a ddim yn effeithio ar rywogaethau. Sicrhawyd bod coed newydd yn cael eu plannu am bob coeden mae'r tîm yn eu torri lawr.

Sicrhawyd bod dros 23,000 o goed bellach wedi cael eu harchwilio gan y tîm ac o'r rheini mae 8,000 wedi cael eu nodi fel coed risg uchel oherwydd yr haint. Ymhelaethwyd bod

1,550 ohonynt eisoes wedi derbyn triniaeth a bod 30 o goed ar diroedd ysgolion wedi cael eu canfod i fod mewn cyflwr eithriadol o wael ac wedi derbyn ymyrraeth yn syth.

Soniwyd bod y tîm hefyd yn cynorthwyo swyddogion eraill y Cyngor ar faterion sydd yn ymwneud â choed. Trafodwyd bod y nifer o geisiadau yn cynyddu wrth i amser fynd yn ei flaen ac yn gosod pwysau ar y tîm. Ychwanegwyd bod y tîm yn cydweithio gyda'r adran Amgylchedd ac yn eu cynorthwyo o fewn eu rôl gyda Phartneriaeth Natur Gwynedd.

Ystyriwyd bod tystiolaeth ail law gan Awdurdodau Lleol eraill yn awgrymu bod y clwyf yn lleihau mewn ardaloedd ar ôl cyfnod o amser. Er hyn, pwysleisiwyd ei fod yn dystiolaeth ail law ac nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r safiad hwn. Nodwyd bod y sefyllfa yng Ngwynedd yn dangos bod y clwyf yn parhau i fodoli yma a bod gan y tîm gwaith dros nifer o flynyddoedd i'w reoli.

Cadarnhawyd mai tirfeddianwyr sy'n gyfrifol am gynnal coed sy'n tyfu ar eu tiroedd a bod ganddynt ddyletswydd gofal i sicrhau nad ydynt yn fygythiad i bobl nac eiddo. Eglurwyd bod y tîm wedi canfod 700 o goed risg uchel sy'n deillio o diroedd preifat a bod ganddynt bŵer o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i fynd ar ôl tirfeddianwyr i wneud coed peryglus yn ddiogel. Er hyn, cydnabuwyd nad yw'r tîm wedi cael cyfle i fynd ar ôl y tirfeddianwyr hyn hyd yma oherwydd adnoddau annigonol.

Cydnabuwyd bod y tîm yn dibynnu ar gontractwyr i waredu coed sydd wedi cael eu torri lawr oherwydd yr haint. Ystyriwyd bod defnydd gwell i'r coed fel asedau i'r Cyngor a rhannwyd ystyriaethau gyda phartneriaethau er mwyn sychu'r coed er mwyn gallu ei ddefnyddio i'r dyfodol ar wahanol brosiectau. Er hyn, cadarnhawyd nad yw'r arbenigedd yn y Cyngor ar hyn o bryd a bydd unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Esboniwyd bod gan y Cyngor Polisi Rheoli Coed ers nifer o flynyddoedd ond ei fod wedi dyddio erbyn hyn. Cadarnhawyd bod gweithgor wedi cael ei sefydlu, gyda rôl arweiniol gan yr Adran a'r tîm, er mwyn edrych i mewn i'r polisi gan ei ddiweddaru yn ôl yr angen. Gobeithiwyd bydd y polisi diwygiedig yn weithredol o fewn y flwyddyn bresennol ond pwysleisiwyd bod angen cymeradwyaeth adrannau eraill y cyngor megis adrannau Addysg a Thai ac Eiddo er mwyn iddo fod yn weithredol, gan ei fod yn effeithio ar eu tiroedd. Ymhelaethwyd bod gofynion statudol yn nodi'r angen i archwilio coed risg uchel pob dwy flynedd ac felly cydnabuwyd byddai hyn yn her i'r tîm. Cadarnhawyd bydd y tîm yn cael sgyrsiau pellach gyda'r Adran er mwyn cynhyrchu bid am arian i gynorthwyo gyda'r gofynion hyn tra mae polisi newydd yn cael ei ddatblygu i ganfod y ffordd orau ymlaen.

Cyfeiriwyd at rai o heriau eraill sy'n wynebu'r tîm. Nodwyd bod cyfathrebu gydag awdurdodau lleol eraill yn ddefnyddiol ond ar hyn o bryd nid yw'r tîm yn derbyn arweiniad o hyn gan fod Cyngor Gwynedd ar y blaen i ymdrin â'r clefyd. Cyfeiriwyd hefyd at yr heriau all godi wrth archwilio coed megis mai dim ond rhwng mis Mai a Medi yn flynyddol mae modd cynnal archwiliadau gan mai dyna pryd mae dail ar y coed.

Nodwyd bod yr Adran wedi cychwyn trafodaethau gydag adrannau eraill y cyngor er mwyn derbyn mewnbwn ar sefydlu 'siop un stop' ble mae holl ymholiadau am goed yn cael eu hymdrin gan un tîm. Esboniwyd bod hyn yn deillio o'r ffaith bod arbenigedd adrannau am goed yn amrywio o adran i adran ac felly byddai canoli'r arbenigedd hwnnw yn hwyluso datrysiadau i ymholiadau i'r dyfodol. Eglurwyd mai trafodaethau cychwynnol sydd wedi cael eu cynnal hyd yma, a bydd diweddariadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen.

Pwysleisiwyd bod y clwyf yn her fawr o fewn y Sir, gan fod yr archwiliadau a wneir gan y tîm yn rhai sydd yn effeithio'r cyhoedd neu ar dir y Cyngor, gan nodi bod posibilrwydd bod y clwyf i'w weld ar dir preifat hefyd. Ar ddiwedd y drafodaeth, gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Pwyllgor ystyried rhaglennu diweddariad ar y mater yn 2025-26.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
**(ii) Bod y Pwyllgor yn ystyried blaenoriaethu'r mater i'w graffu yn ystod 2025/26.**

## 9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi ystyried eitemau posib i'w craffu ar gyfer 2024/25 yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2024. Manylwyd y gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Cadarnhawyd mai'r prif flaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn, oedd:

1 Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu
2 Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus
= Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ac Amcanion
= Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24
3 Cyflwyno pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan
= Cynllunio a Chymunedau Cymraeg

Ychwanegwyd bod gan y Pwyllgor rôl i graffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn gyda dealltwriaeth bod gwaith y Bwrdd yn cael ei graffu ddwywaith y flwyddyn. Daethpwyd i'r casgliad y dylid rhannu copi o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2023/24 gyda'r aelodau ond ddim ei graffu yn ffurfiol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor. Cadarnhawyd bod yr eitem 'Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod mis Ionawr.

Nodwyd bod yr eitem 'Gwasanaeth Edrychiad Stryd' wedi ei adnabod fel eitem i'w raglennu yn ystod 2025/26.

Atgoffwyd bod y flaenraglen craffu yn raglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Nodwyd y rhoir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn megis materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadwyd rhaglen waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2024/25.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:40yb a gorffennodd am 12:50yp

________________________________

CADEIRYDD

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **12/09/2024** |
| **TEITL** | **Ffioedd Parcio** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **Blaengraffu**<br>**1. I weithredu cynlluniau arbedion**<br>**2. I ystyried opsiynau i gyfarch y diffyg rhwng y targed incwm parcio a'r hyn sydd yn cael ei wireddu** |
| **AWDUR** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd** |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 I alluogi'r Gwasanaeth Parcio fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan Gabinet y Cyngor yn 2023/24.

1.2 I alluogi'r Gwasanaeth Parcio fwrw mlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol yn 2024/25.

1.3 I lywio penderfyniad o ganlyniad i ddiffyg sylweddol yng nghyllideb y Gwasanaeth Parcio.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

**Cynlluniau Arbedion 2023/24**

2.1 Mae'r cynlluniau arbedion canlynol wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet yn 2023/24:

- Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd
- Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Thocynnau Parcio Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn.

**Cynlluniau Arbedion 2024/25**

2.2 Mae'r cynlluniau arbedion canlynol angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol:

- Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor
- Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2

**Diffyg yn y Gyllideb**

2.3 Drwy graffu'r mater gan roi ystyriaeth i'r cyd-destun ariannol ac ystyried opsiynau posib o ran codi ffioedd parcio yn gyffredinol a'r syniad o'u codi'n flynyddol ar sail chwyddiant, gall y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cabinet er ystyriaeth cyn gwneud penderfyniad.

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Mae'n anorfod i'r Cyngor wireddu arbedion a thoriadau sylweddol ynghyd a chynyddu lefel treth Cyngor er mwyn cyfarch bwlch ariannol dwys sydd yn y cyllidebau.

3.2 Bu i wasanaethau ar draws y Cyngor gyflwyno cynlluniau arbedion oedd gyfwerth a 20% o'u cyllidebau mewn ymgais i leddfu'r sefyllfa gyllidol hynod heriol sydd yn ein hwynebu.

3.3 Cafodd rhai o'r cynlluniau yma eu derbyn y llynedd, ac ers hynny, mae'r holl gynlluniau oedd yn weddill wedi bod yn sail trafodaethau a gweithdai mewnol.

**Cynlluniau Arbedion 2023/24**

3.4 Gweler isod ddau o'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Parcio sydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gabinet y Cyngor yn 2023/24 ynghyd a gwedd cyntaf cynigion arbedion a thoriadau'r Cyngor. Er hyn, a gan ystyried bod y pwnc yn hynod gynhennus, teimlwn ei bod yn briodol cyflwyno'r cynlluniau ger bron y Pwyllgor Craffu.

| Teitl y Cynllun | Amcan Cyfanswm Incwm ychwanegol |
|---|---|
| Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd | £40,000 |
| Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn | £17,000 |
| **Cyfanswm:** | **£57,000** |

**Cynlluniau Arbedion 2024/25**

3.5 Gweler isod ddau o'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Parcio sydd angen ystyriaeth bellach a chymeradwyaeth gan Aelodau Cabinet y Cyngor er mwyn galluogi'r gwasanaeth i fwrw mlaen gyda'r trefniadau a chychwyn gwireddu'r cynnydd mewn incwm posibl:

| Teitl y Cynllun | Amcan Cyfanswm Incwm ychwanegol |
|---|---|
| Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 | £160,000 |
| Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor | £78,000 |
| **Cyfanswm:** | **£238,000** |

**Diffyg yn y Gyllideb**

3.6 Caiff chwyddiant cyfansawdd ei ychwanegu ar darged incwm ffioedd parcio ar gychwyn pob blwyddyn ariannol. Mae cynnydd sylweddol yn y targed yn golygu nad ydi'r incwm a gynhyrchwyd bellach yn cyrraedd y targed a osodir. O ganlyniad, mae'n creu'r argraff od gorwariant sylweddol yng nghyllidebau'r gwasanaeth.

3.7 Rhagwelir byddai angen cynyddu ffioedd parcio rhwng 30% a 40% er mwyn cyrraedd targed incwm sydd angen ei gyfarch gan ffioedd parcio o feysydd parcio talu ac arddangos yr Adran Amgylchedd.

3.8 Rhagwelir byddai cynyddu ffioedd parcio 40% yn ddigonol ar gyfer cyfarch y cynnydd chwyddiant disgwyliedig hyd at flwyddyn ariannol 2028-2029.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Sefydlwyd Grŵp Tasg Parcio ym mis Gorffennaf 2019 i ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth parcio weithredol ac ystyried ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion y Cyngor ac anghenion ein cymunedau erbyn heddiw.

4.2 Roedd y Grŵp Tasg yn cynnwys pedwar aelod lleol ar y pryd, Cynghorydd Angela Russell; Cynghorydd Annwen Hughes; Cynghorydd Kevin Morris Jones a Chynghorydd Gethin Glyn Williams a fu gydweithio'n adeiladol gyda Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd a swyddogion eraill o'r Adran.

4.3 Roedd polisïau a gweithdrefnau parcio'r Cyngor wedi aros yr un fath fwy neu lai ers 2015 felly manteisiwyd ar y cyfle i argymell gwelliannau oedd yn cydweddu gyda'r sefyllfa economi leol ac uchafu'r defnydd o feddalwedd sydd bellach ar gael. Roedd adolygu'r trefniadau hefyd yn anorfod yn nhermau cynaliadwyedd ariannol o ran cyllidebau'r awdurdod er sicrhau bod ein trefniadau rheoli ymarferol yn effeithiol ac yn effeithlon.

4.4 Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnig argymhellion priodol ar gyfer datrys mwyafrif o'r materion. Yn ddilynol i hwn, aeth adroddiad terfynol ger bron Aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 gyda'r argymhellion isod yn cael eu cymeradwyo:

1. Mabwysiadu Strwythur Ffioedd Parcio Newydd yn seiliedig ar y bandiau isod:

| Band | Meini Prawf |
|---|---|
| Band 1 | Canolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Manwerthu Trefol (Darparu'r ystod orau o wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus) |
| Band 2 | Canolfannau Manwerthu a Gwasanaethu Lleol (darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a'r dalgylchoedd gwledig cyfagos, ynghyd â rhywfaint o gyfleoedd cyflogaeth a manwerthu. Mae ganddynt raddfa dda o hygyrchedd trwy gludiant cyhoeddus i'r Canolfannau rheng uwch) |
| Band 3 | Meysydd Parcio Tymhorol |

2. Adolygu cynnig parcio yn ystod cyfnod y Nadolig
3. Dim newidiadau i'r Cynllun Bathodyn Glas
4. Dim newidiadau i'r Cynllun Parcio i Breswylwyr
5. Cryfhau'r Tîm Gorfodaeth Parcio

4.5 Mae'r argymhellion a restrwyd uchod wedi'u gweithredu.

**Cynlluniau Arbedion**

4.6 Fel y soniwyd uchod, ar dro'r flwyddyn 2023 bu i wasanaethau ar draws y Cyngor gyflwyno cynlluniau arbedion oedd gyfwerth a 20% o'u cyllidebau mewn ymgais i leddfu'r sefyllfa gyllidol hynod heriol sydd yn ein hwynebu.

4.7 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pedwar cynllun isod:

- **Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd**
- **Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn**
- **Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2**
- **Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor**

**Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd**

4.8 Mae gan y Cyngor ddarpariaeth parcio talu ac arddangos yn ardal Pen y Gwryd. Yn wahanol i feysydd parcio'r Cyngor, mae'r ddarpariaeth parcio hwn gyfochrog â'r brifforดd ac felly wedi'i lywodraethu gan orchymyn parcio ar y ffordd.

4.9 Mae'r un ffioedd wedi bodoli yn y lleoliad ers blynyddoedd, sef £2.00 am hanner diwrnod a £4.00 am ddiwrnod llawn. Wrth edrych ar weddill ffioedd ledled y Sir, teimlwn ei bod yn rhesymol ac amserol cynyddu'r ffioedd presennol i £4.00 am 6 awr a £8.00 am 12 awr.

4.10 Rydym yn rhagweld gall y newid hwn gynhyrchu **£40,000** yn ychwanegol (Gros).

4.11 Byddwn wrth gwrs yn edrych ar yr ochr ymarferol ar gyfer rhoi'r newidiadau ar waith, gan gynnwys cyflwyno opsiynau talu amgen sydd yn ychwanegol i'r dull talu traddodiadol gydag arian parod.

**Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol a Lleol meysydd parcio o £5 y flwyddyn**

4.12 Mae'r Cyngor yn cynnig tocyn parcio blynyddol sydd yn galluogi deiliaid i barcio mewn unrhyw faes parcio arhosiad hir ledled y Sir heb gyfyngiad amser.

4.13 Bu i gost y tocyn parcio blynyddol gynyddu o £125 i £140 y flwyddyn yn 2021 yn unol ag argymhelliad o'r adolygiad strategaeth parcio. Yn flaenorol, doedd y prisiau heb gynyddu ers 2015.

4.14 Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig tocyn parcio lleol i drigolion sydd heb lecyn parcio dynodedig i ddefnyddio maes parcio arhosiad hir sydd agosaf i'w cartrefi. Bu i gost y tocyn parcio lleol gynyddu o £60 i £70 y flwyddyn yn 2021 yn unol ag argymhelliad yr adolygiad strategaeth parcio. Yn flaenorol, doedd y prisiau heb gynyddu ers 2015.

4.15 Byddai gweithredu'r cynnydd pris fel sydd wedi ei gynnwys yng nghynlluniau arbedion corfforaethol yn golygu y byddai pris Tocyn Parcio Blynyddol yn cynyddu o **£140 i £145** (+3.6%) y flwyddyn a phris Tocyn Parcio Lleol o **£70 i £75** (+7%) y flwyddyn.

4.16 Teimlwn y byddai'r tocynnau hyn yn parhau i gynnig gwerth am arian ar ôl cynnydd i'r ffioedd – gweler isod ddadansoddiad yn seiliedig ar y ffioedd newydd arfaethedig:

| | Cost Misol | Cost Dyddiol |
|---|---|---|
| Tocyn Parcio Blynyddol | £12.08 | £0.40 |
| Tocyn Parcio Lleol | £6.25 | £0.21 |

**Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2**

4.17 Bu i Aelodau Cabinet y Cyngor gymeradwyo strwythur ffioedd parcio newydd yn 2021 a chyflwyno gwelliant i'r argymhelliad drwy ymofyn i'r Cyngor leihau amser gorfodi meysydd parcio arhosiad byr. Newidiwyd o 9:00 - 17:00 i 10:00 - 16:30.

4.18 Roedd yr argymhelliad gwreiddiol i gyflwyno oriau gorfodi o 9:00 - 17:00 wedi ei gwtogi'n barod o 8:00 – 18:00.

4.19 Y penderfyniad terfynol gan Aelodau'r Cabinet oedd cwtogi'r oriau ymhellach i 10:00 - 16:30. Daeth y newidiadau i rym ym mis Mai 2021 gyda'r ddealltwriaeth bod yr Adran Amgylchedd yn monitro'r lefelau incwm yn agos iawn.

4.20 Er yn anodd iawn amcanu gwir ardrawiad ariannol y trefniadau, mae'r tueddiadau parcio cyn 10:00 ac ar ôl 16:30 yn argymell ein bod yn pwyso tuag at yr achos gwaethaf yn nhermau colled incwm a amcanir, sef **£78,000**.

4.21 Teimlwn ein bod bellach mewn sefyllfa ble mae'n anorfod cynnig ymestyn yr oriau gorfodaeth ym meysydd parcio arhosiad byr band 1 a 2 i 9:00 – 17:00.

**Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor**

4.22 Er gwaethaf y gwaith o dderbyn cymeradwyaeth ac ymgynghori'n unol â'r drefn, derbyniwyd nifer o gwynion ynghylch y ffioedd newydd. Roedd rhan helaeth o'r cwynion yn cyfeirio tuag at y gost i barcio ym meysydd parcio arhosiad hir o fewn band 2 ble roedd penderfyniad wedi ei wneud i leihau'r nifer o opsiynau i ddau ffi yn unig – sef £5 am 12 awr a £10 am 24 awr.

4.23 Mynegwyd pryderon na fyddai'r ffioedd newydd yn fforddiadwy i bobl leol nac ychwaith yn cyfarch anghenion y bobl fyddai'n awyddus defnyddio'r meysydd parcio am gyfnod o lai na 12 awr.

4.24 Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r adborth a dderbyniwyd ar ôl i'r ffioedd newydd ddod i rym. O ganlyniad, penderfynwyd cyflwyno dau ffi newydd yn ychwanegol i'r ddau ffi presennol, sef £1 am 2 awr a £2 am 4 awr.

4.25 Roedd disgwyliad i'r strwythur ffioedd newydd yn ei ffurf wreiddiol gyfarch cyllideb y Cyngor. Wrth gwrs, cyfrifwyd y ffigyrau yn seiliedig ar yr oriau gorfodaeth a ffioedd gwreiddiol heb roddi ystyriaeth i'r newidiadau a gyflwynwyd wedi hynny.

4.26 Drwy gofio mai meysydd parcio arhosiad hir sydd dan sylw yma, rydym bellach yn argymell gwaredu y ffi £1.00 am 2 awr yn gyfan gwbl a chynyddu'r ffi 4 awr o £2.00 i £2.50.

4.27 Drwy ddefnyddio'r un model a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer amcanu incwm a drwy gyflwyno ffi sydd yn leiafswm o £2.50, rydym yn rhagweld gall y newid hwn gynhyrchu **£160,000** yn ychwanegol (Gros).

4.28 Mae copi o'r strwythur ffioedd arfaethedig llawn i'w weld yn **Atodiad A**.

## 5. Gorwariant yn y Gyllideb

5.1 Mae strategaeth parcio'r Cyngor, sydd yn cynnwys ein strwythur ffioedd ar gyfer meysydd parcio talu ac arddangos y Cyngor yn cael ei adolygu bob rhyw bum mlynedd.

5.2 Mae targed incwm sydd angen i'r gwasanaeth ei gyfarch drwy ffioedd parcio yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant. Caiff chwyddiant cyfansawdd ei ychwanegu ar darged incwm ffioedd parcio ar gychwyn pob blwyddyn ariannol.

5.3 Cadarnhawn bod targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2024-25 yn cynnwys chwyddiant yn ogystal a'r cyfansymiau incwm ychwanegol sy'n deillio o'r cynlluniau arbed a gynigiwyd gan y gwasanaeth.

5.4 Isod gweler grynhoad o'r targedau incwm ers 2021-22:

| | Cyllideb |
|---|---|
| | |
| 2021/22 | £2,381,880 |
| | |
| 2022/23 | £2,506,260 |
| | |
| 2023/24 | £2,690,350 |
| | |
| 2024/25 | £2,937,020 |

5.5 Roedd cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd drwy ffioedd parcio ym mlwyddyn ariannol 2023-24 oddeutu £2.1 miliwn sydd tua £590k yn llai na'r targed.

5.6 Petai'r strwythur ffioedd parcio a'r nifer o bobl sydd yn defnyddio'r meysydd parcio yn aros yr un fath eleni, rhagwelir byddai'r gwasanaeth yn tangyflawni dros £870,000. Drwy gymeradwyo'r cynlluniau arbed uchod, byddai modd lleihau'r cyfanswm hwn i £730,000.

5.7 Er mwyn ceisio cadw i fyny gyda'r targed incwm blynyddol, gan ystyried nad yw'r ffioedd yn cynyddu yn flynyddol, yr unig ffordd i wneud hyn yw drwy gynyddu'r defnydd. Mae'r gwarged nawr yn afrealistig o ran faint o gynnydd yn nefnydd fyddai angen er mwyn cwrdd â hyn. Mae hyn gan ystyried fe fydd rhai o'n meysydd parcio mwyaf prysur yn llawn neu agos i fod yn llawn eisoes yn ystod cyfnodau brig

5.8 Golygai'r ffaith bod strwythur ffioedd parcio'r Cyngor wedi aros yr un fath ers 2021, a'r targed incwm sydd angen ei gyfarch yn parhau i gynyddu, iddi ymddangos bod cyllidebau'r gwasanaeth yn gorwario'n sylweddol yn erbyn y targed.

## 6. Ffordd Ymlaen

6.1 Rydym yn effro i'r ffaith bod cyfnod heriol iawn yn ein hwynebu a'i bod yn anorfod fod rhaid i'r Gwasanaeth Parcio, fel gwasanaethau eraill, gyfrannu tuag at lenwi'r bwlch ariannol sydd yn bodoli yng nghyllidebau'r Cyngor.

### Cynlluniau Arbedion

6.2 Mewn ymateb i sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, mae bwriad bwrw mlaen gyda'r cynlluniau arbedion a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2023/24, sef 1) Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd a 2) Cynyddu pris tocyn parcio blynyddol a thocyn parcio lleol £5 y flwyddyn.

6.3 Byddwn yn cyflwyno'r cynlluniau arbedion sydd angen ystyriaeth bellach, sef 1) Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 a 2) Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor ger bron Aelodau'r Cabinet a gofyn am gymeradwyaeth ym mis Hydref 2024 yn y gobaith o alluogi'r gwasanaeth i fwrw mlaen gyda'r trefniadau a chychwyn gwireddu'r cynnydd mewn incwm posibl.

### Gorwariant yn y Gyllideb

6.4 Mae ffioedd parcio yn cynhyrchu incwm sylweddol i'r Cyngor. Er hyn, mae'n rhaid wynebu'r ffaith nad yw'r strwythur ffioedd presennol bellach yn addas ar gyfer cyfarch y targed incwm.

6.5 Yn seiliedig ar y strwythur ffioedd presennol a petai defnydd ein meysydd parcio yn aros yr un fath, rydym yn amcanu byddai cynyddu'r holl ffioedd yn cynhyrchu'r lefelau incwm isod;

| | **Cyfanswm Incwm Ychwanegol Blynyddol (amcan)** |
|---|---|
| **1. Cynyddu'r holl ffioedd 30%** | £600,000 |
| **2. Cynyddu'r holl ffioedd 40%** | £800,000 |

6.6 Er mwyn cyfarch targed incwm sydd wedi'i osod ar gyfer eleni, rydym yn rhagweld byddem angen cynyddu'r holl ffioedd rhwng 30% a 40%.

6.7 Mae **Atodiad B** yn arddangos y strwythur ffioedd bresennol gydag ychwanegiadau o 30% a 40%.

6.8 Mae **Atodiad C** yn arddangos y strwythur ffioedd arfaethedig gydag ychwanegiadau 30% a 40%.

6.9 Os am gyfarch cynnydd chwyddiant disgwyliedig hyd at blwyddyn ariannol 2028-29 amcan gyfrir byddai angen codi'r holl ffioedd **40%**.

6.10 Mae'r opsiynau canlynol yn cynnig ffordd o leddfu ardrawiad mor sylweddol ar ein strwythur ffioedd parcio:

- Lleihau'r targed incwm sydd yn ddisgwyliedig gan ffioedd parcio
- Rhewi'r cyfradd chwyddiant rhwng adolygiadau fel nad ydi'r targed incwm yn cynyddu'n flynyddol
- Cynyddu'r ffioedd parcio yn flynyddol yn hytrach na bob 5 mlynedd (ar gyfartaledd)

6.11 Mae'r opsiynau hyn yn cynnig manteision yn nhermau cynorthwyo'r gwasanaeth i gyfarch targed sydd yn fwy cyraeddadwy. Er hyn, mae'n bwysig bod yn effro i'r ffaith byddai sgil effaith yr opsiynau hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor gyfarch y diffyg ariannol mewn ffordd amgen.

6.12 Mae'r Gwasanaeth Parcio'n monitro'n rheolaidd sut mae cwsmeriaid yn talu am barcio, boed hynny trwy beiriannau talu neu ap symudol. Mae'r monitro parhaus hwn yn caniatáu i ni ddeall dewisiadau a thueddiadau cwsmeriaid, gan sicrhau y gallwn addasu ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.

6.13 Yn ystod 2023-24, cafodd 55% o holl daliadau am barcio eu gwneud drwy'r Ap ffôn symudol (Paybyphone) a'r 45% sydd yn weddill yn cael eu gwneud drwy'r peiriannau talu ac arddangos.

6.14 Drwy werthuso'r defnydd o wahanol ddulliau talu, gallwn nodi cyfleoedd i symleiddio gweithrediadau a lleihau costau. Er enghraifft, os oes symudiad sylweddol tuag at daliadau digidol trwy ap, gallem ystyried lleihau nifer y peiriannau talu, gan arwain at arbedion ar gostau cynnal a chadw a gweithredu. Ar y llaw arall, os yw peiriannau talu'n parhau i fod yn boblogaidd, byddai sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn hawdd eu defnyddio'n hanfodol.

6.15 Yn y pen draw, ein nod yw cynnig y gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid mewn ffordd sy'n hawdd i'w defnyddio ac yn gost-effeithiol. Trwy wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar y data a gasglwn, gallwn wneud y Gwasanaeth Parcio'n fwy effeithlon, gwella'r profiad cwsmeriaid, ac arbed arian i'r Cyngor, gan gyfrannu at effeithlonrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol y gwasanaeth.

## 7. Ymgynghori

7.1 Byddwn yn cyflwyno adroddiad gerbron Aelodau'r Cabinet ym mis Hydref 2024 a phetaent yn cymeradwyo'r argymhellion cysylltiedig a chynyddu ffioedd parcio, byddem yn cynnal cyfnod ymgynghori yn unol â Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol – Rheoliad 25 (Cymru a Lloegr).

7.2 Fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, mae'n hanfodol i'r Cyngor hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn y papurau newydd lleol yn ogystal ag arddangos y wybodaeth (cynnwys y ffioedd newydd) mewn safleoedd amlwg yn y meysydd parcio a cheir eu heffeithio.

7.3 Pan ddaw'r amser i weithredu'r newidiadau, gallwn ddiweddaru'r ffioedd parcio drwy ddefnyddio'r system swyddfa gefn MI Office. Ni fydd ffi yn gysylltiedig â hyn.

7.4 Byddwn yn ceisio ail ddefnyddio cyn gymaint o'r arwyddion tariff a phosibl drwy brynu sticeri pwrpasol gyda'r ffioedd newydd yn hytrach na phrynu arwyddion newydd. Byddwn yn rhagweld costau o oddeutu £1,000 ar gyfer diweddaru'r arwyddion.

7.5 Byddwn yn hyrwyddo'r tocynnau parcio blynyddol a lleol rydym yn ei gynnig am brisiau rhesymol. Mae nifer o drigolion a phobl sydd angen defnyddio ein meysydd parcio'n ddyddiol yn manteisio ar y cyfle i brynu tocyn sydd yn profi'n werth am arian.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

8.1 Dylai'r cynnig i godi ffioedd parcio gyd-fynd â saith nod llesiant y Ddeddf:

**Cymru ffyniannus**: Drwy reoli ffioedd parcio'n ofalus, gall y cyngor gefnogi twf economaidd drwy annog pobl i ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol, gan gynhyrchu refeniw y gellir ei ail-fuddsoddi mewn gwelliannau seilwaith.

**Cymru gydnerth**: Gall ffioedd parcio uwch annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, lleihau defnydd ceir, ac o ganlyniad lleihau allyriadau carbon. Mae hyn yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ac yn cyfrannu at gymuned fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

**Cymru iachach**: Gall annog dewisiadau amgen i deithio mewn ceir, megis cerdded, beicio, neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, hyrwyddo ymarfer corff a lleihau llygredd aer, gan gyfrannu'n bositif at iechyd y cyhoedd.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**: Rhaid i'r polisi ystyried yr effaith ar grwpiau cymdeithasol-economaidd gwahanol. Dylid sicrhau nad yw unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn effeithio'n anghymesur ar unigolion incwm isel a bod opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy ar gael o hyd.

8.2 Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r tocynnau parcio blynyddol a lleol sydd ar gael am brisiau rhesymol. Mae nifer o drigolion a phobl sydd angen defnyddio ein meysydd parcio'n ddyddiol yn manteisio ar y cyfle i brynu tocyn sydd yn profi'n werth am arian.

**Cymru o gymunedau cydlynus**: Gall polisïau parcio wedi'u rheoli'n briodol wella bywiogrwydd canol trefi drwy leihau tagfeydd a gwneud ardaloedd yn fwy hygyrch a dymunol i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**: Trwy gymryd camau i leihau dibyniaeth ar geir, gall y cyngor gyfrannu at ymdrechion byd-eang i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, gan adlewyrchu ymrwymiad i gynaliadwyedd byd-eang.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**: Dylai strategaethau parcio hefyd ystyried eu heffaith ar fynediad at ddigwyddiadau a lleoliadau diwylliannol, gan sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu hyrwyddo a'u cadw.

8.3 Dylai'r cynnig i godi ffioedd parcio gyd-fynd â'r pump modd o weithio a nodir yn y Ddeddf:

Rydym yn **cynnwys** trigolion a defnyddwyr gwasanaeth drwy dderbyn adborth. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau, cwynion, sylwadau a mewnbwn arall gan y cyhoedd, defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr ein meysydd parcio ar sail barhaus.

Rydym yn **cydweithio** gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol Arall, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

Ar lefel weithredol rydym yn cyd-weithio gyda 10 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru fel aelodau o PPCC (Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru) i gefnogi'r gweithrediad gorfodaeth drwy ddelio â heriau, taliadau a phrosesu'r holl rybuddion talu cosb a gyflwynir.

8.4 Ar lefel strategol rydym yn rhoi mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy'r Cydbwyllgor Corfforaethol.

Rydym yn edrych i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol drwy gydweithio yn agos gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill. Y bwriad yw optimeiddio'r defnydd o'r meysydd parcio i hwyluso mynediad a cefnogi cymunedau gwydn a economi leol byrlymus a llwyddiannus.

Rydym yn ystyried yr **hirdymor** drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gwaith y Cydbwyllgor Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i sut mae strategaeth parcio a strwythur ffioedd parcio yn medru dylanwadu yn gadarnhaol ar dewisiadau a ymddygiadau teithio. Mae rhaglen ar waith i leoli pwyntiau gwefru ar cyfer ceir trydan yn ein meysydd parcio. Mae modd i dalu am barcio mewn meysydd parcio drwy Ap sydd yn adlewyrchiad yn newidiadau technegol yn ogystal a'r modd mae cwsmeriaid am dalu i barcio. Mae'r modd yma o dalu yn gynyddol boblogaidd.

8.5 Mae natur y maes gwaith yn golygu angen i **integreiddio** gyda chyrff cyhoeddus eraill sydd yn cynnwys Awdurdodau Lleol eraill, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn ystyried y berthynas rhwng y ddarpariaeth parcio ar y stryd ag oddi ar y stryd fel un pecyn integredig gyda'r bwriad o gwrdd a disgwyliadau a dyheadau wahanol rhanddeiliaid pan mae rhain weithiau yn gwrthdaro.

8.6 Dylai'r Pwyllgor Craffu sicrhau bod y penderfyniad i godi ffioedd parcio'n cael ei wneud gyda golwg holistig, gan ystyried nid yn unig y manteision ariannol uniongyrchol ond hefyd yr effeithiau hirdymor ar lesiant cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

## 9. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

9.1 Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio yn ystod y broses ymgynghori ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant.

## 10. Camau Nesaf

10.1 Byddwn yn cyflwyno adroddiad ger bron Aelodau Cabinet y Cyngor ym mis Hydref 2024.

## Atodiadau

Atodiad A: Copi strwythur ffioedd arfaethedig (newid band 2)
Atodiad B: Strwythur ffioedd bresennol gydag ychwanegiadau o 30% a 40%
Atodiad C: Strwythur ffioedd arfaethedig gydag ychwanegiadau 30% a 40%

**Atodiad A**

| Strwythur ffioedd arfaethedig | |
|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 |

| Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **10%** wedi ychwanegu | |
|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.75 |
| Hyd at 12 Awr | £5.50 |
| Hyd at 24 Awr | £11.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.75 |
| Hyd at 12 Awr | £3.30 |
| Hyd at 24 Awr | £6.60 |

| Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **20%** wedi ychwanegu | |
|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £3.00 |
| Hyd at 12 Awr | £6.00 |
| Hyd at 24 Awr | £12.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £3.00 |
| Hyd at 12 Awr | £3.60 |
| Hyd at 24 Awr | £7.20 |

| Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **30%** wedi ychwanegu | |
|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £3.25 |
| Hyd at 12 Awr | £6.50 |
| Hyd at 24 Awr | £13.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £3.25 |
| Hyd at 12 Awr | £3.90 |
| Hyd at 24 Awr | £7.80 |

| Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **40%** wedi ychwanegu | |
|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £3.50 |
| Hyd at 12 Awr | £7.00 |
| Hyd at 24 Awr | £14.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £3.50 |
| Hyd at 12 Awr | £4.20 |
| Hyd at 24 Awr | £8.40 |

**Atodiad B**

Strwythur ffioedd Presennol

| Band 1 | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.00 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 |

| Band 1 | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 4 Awr | £2.00 |
| Hyd at 8 Awr | £3.00 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 |

| Band 2 - Haf | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.00 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 |

| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.00 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 |

| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 2 Awr | £1.00 |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 |

| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 2 Awr | £1.00 |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 |

| Band 3 | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 6 Awr | £3.00 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 |

Strwythur ffioedd gyda **30%** wedi ychwanegu

| Band 1 | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.30 |
| Hyd at 2 Awr | £2.60 |
| Hyd at 3 Awr | £3.90 |

| Band 1 | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 4 Awr | £2.60 |
| Hyd at 8 Awr | £3.90 |
| Hyd at 12 Awr | £5.20 |
| Hyd at 24 Awr | £6.50 |

| Band 2 - Haf | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.30 |
| Hyd at 2 Awr | £2.60 |
| Hyd at 3 Awr | £3.90 |

| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.30 |
| Hyd at 2 Awr | £2.60 |
| Hyd at 3 Awr | £3.90 |

| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 2 Awr | £1.30 |
| Hyd at 4 Awr | £2.60 |
| Hyd at 12 Awr | £6.50 |
| Hyd at 24 Awr | £13.00 |

| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 2 Awr | £1.30 |
| Hyd at 4 Awr | £2.60 |
| Hyd at 12 Awr | £3.90 |
| Hyd at 24 Awr | £7.80 |

| Band 3 | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 6 Awr | £3.90 |
| Hyd at 12 Awr | £5.20 |
| Hyd at 24 Awr | £6.50 |

Strwythur ffioedd gyda **40%** wedi ychwanegu

| Band 1 | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £4.20 |

| Band 1 | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 8 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £7.00 |

| Band 2 - Haf | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £4.20 |

| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr |
|---|---|
| Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £4.20 |

| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 2 Awr | £1.40 |
| Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 12 Awr | £7.00 |
| Hyd at 24 Awr | £14.00 |

| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 2 Awr | £1.40 |
| Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 12 Awr | £4.20 |
| Hyd at 24 Awr | £8.40 |

| Band 3 | Arhosiad Hir |
|---|---|
| Hyd at 6 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £7.00 |

**Atodiad C**

| Strwythur ffioedd arfaethedig | | Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **30%** wedi ychwanegu | | Strwythur ffioedd arfaethedig gyda **40%** wedi ychwanegu | |
|---|---|---|---|---|---|
| Band 1 | Arhosiad Byr | Band 1 | Arhosiad Byr | Band 1 | Arhosiad Byr |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.30 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.60 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £3.90 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| Band 1 | Arhosiad Hir | Band 1 | Arhosiad Hir | Band 1 | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.00 | Hyd at 4 Awr | £2.60 | Hyd at 4 Awr | £2.80 |
| Hyd at 8 Awr | £3.00 | Hyd at 8 Awr | £3.90 | Hyd at 8 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 | Hyd at 12 Awr | £5.20 | Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 | Hyd at 24 Awr | £6.50 | Hyd at 24 Awr | £7.00 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Band 2 - Haf | Arhosiad Byr | Band 2 - Haf | Arhosiad Byr | Band 2 - Haf | Arhosiad Byr |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.30 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.60 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £3.90 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr | Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr | Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Byr |
| Hyd at 1 Awr | £1.00 | Hyd at 1 Awr | £1.30 | Hyd at 1 Awr | £1.40 |
| Hyd at 2 Awr | £2.00 | Hyd at 2 Awr | £2.60 | Hyd at 2 Awr | £2.80 |
| Hyd at 3 Awr | £3.00 | Hyd at 3 Awr | £3.90 | Hyd at 3 Awr | £4.20 |
| Band 2 - Haf | Arhosiad Hir | Band 2 - Haf | Arhosiad Hir | Band 2 - Haf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 | Hyd at 4 Awr | £3.25 | Hyd at 4 Awr | £3.50 |
| Hyd at 12 Awr | £5.00 | Hyd at 12 Awr | £6.50 | Hyd at 12 Awr | £7.00 |
| Hyd at 24 Awr | £10.00 | Hyd at 24 Awr | £13.00 | Hyd at 24 Awr | £14.00 |
| Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir | Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir | Band 2 - Gaeaf | Arhosiad Hir |
| Hyd at 4 Awr | £2.50 | Hyd at 4 Awr | £3.25 | Hyd at 4 Awr | £3.50 |
| Hyd at 12 Awr | £3.00 | Hyd at 12 Awr | £3.90 | Hyd at 12 Awr | £4.20 |
| Hyd at 24 Awr | £6.00 | Hyd at 24 Awr | £7.80 | Hyd at 24 Awr | £8.40 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Band 3 | Arhosiad Hir | Band 3 | Arhosiad Hir | Band 3 | Arhosiad Hir |
| Hyd at 6 Awr | £3.00 | Hyd at 6 Awr | £3.90 | Hyd at 6 Awr | £4.20 |
| Hyd at 12 Awr | £4.00 | Hyd at 12 Awr | £5.20 | Hyd at 12 Awr | £5.60 |
| Hyd at 24 Awr | £5.00 | Hyd at 24 Awr | £6.50 | Hyd at 24 Awr | £7.00 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **12/09/2024** |
| **TEITL** | **Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd** |
| **AWDUR** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Adran Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd** |

## 1. Cefndir a Chyd-destun

1.1 Darparwyd diweddariad ar ddatblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Gorffennaf 2023 a chyn hynny ar 15 Medi 2022.

- Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 13 Gorffennaf 2023 Adroddiad Diweddariad - Datblygiadau yn y maes cludiant cyhoeddus.pdf (llyw.cymru)
- Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Medi 2022 Adroddiad datblygiadau yn y maes cludiant cyhoeddus.pdf (llyw.cymru)

1.2 Mae'r adroddiad yma yn:

- Datblygu ar yr adroddiadau blaenorol gan ddarparu diweddariad ar yr adolygiad traws-sirol o'r rhwydwaith bysiau mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdani sydd erbyn hyn wedi ei gwblhau. Mae hyn yn cynnwys esboniad o'r rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd a'r trefniadau sydd yn tanategu a chynnal hyn ynghyd â'r cyswllt strategol gyda Chynllun y Cyngor 2023-28.
- Ymateb i'r materion sydd wedi eu codi gan y Pwyllgor gan gynnwys y cwestiynau ychwanegol.

## 2. Rhwydwaith Bysiau Gwynedd

2.1 Yn gyffelyb ac ardaloedd eraill mae'r trefniadau sy'n cynnal y rhwydwaith bysiau cyhoeddus yng Ngwynedd yn gymhleth.

2.2 Nid oes un corff, cwmni, sefydliad nac awdurdod â rheolaeth lawn o'r rhwydwaith.

2.3 Mae gwasanaethau yn cael eu darparu:

a. yn uniongyrchol ar sail fasnachol gan gwmnïau
b. drwy gytundeb (De minimis neu drwy gaffael) i Gyngor Gwynedd
c. drwy gytundeb (De minimis neu drwy gaffael) i Drafnidiaeth Cymru
ch. cyfuniad o a.-c.

2.4 Mae proffil a.-ch. yn gallu ac yn newid dros amser. Mae hyn yn amlwg iawn ar hyn o bryd oherwydd bod 'na gymaint o anwadalwch a ffactorau amrywiol yn dylanwadu ac effeithio'r diwydiant ar draws Cymru.

2.5 Mae'r trefniadau sy'n cynnal siwrneiau penodol, sy'n ffurfio rhan o wasanaeth ehangach, yn medru bod yn wahanol.

2.6 Tra bydd yna egwyddorion sydd wedi eu rhannu nid yw hyn bob tro yn wir o flaenoriaethau a chymhelliannau'r prif rhanddeiliaid.

2.7 Mae'r lefel o ddylanwad sydd gan un o'r rhanddeiliaid dros y llall/lleill yn amrywio o ddim i sylweddol yn ddibynnol ar y trefniadau penodol sydd mewn lle.

2.8 Mae cyfyngiadau logisteg, technegol, deddfwriaethol ac argaeledd adnoddau yn dylanwadu ar lefel y ddarpariaeth.

2.9 Mae yna 7 wahanol fodel presennol o ran sut mae'r gwasanaethau bws yn cael eu darparu a chynnal yng Ngwynedd.

| Model | Math o Wasanaeth | Trefniadau |
|---|---|---|
| 1 | Gwasanaeth Bws Lleol:<br>Masnachol | Darparu gan gwmnïau ar y sail fod y gwasanaeth yn fasnachol hyfyw. |
| | | |
| 2 | Gwasanaeth Bws Lleol:<br>Deminimis | Mwyafrif o siwrneiau yn cael eu darparu gan gwmnïau ar y sail fod y gwasanaeth yn fasnachol hyfyw ond yn derbyn taliad am rhai siwrneiau penodol. |
| | | |
| 3 | TrawsCymru | Rhan o rwydwaith TrawsCymru.<br>Dan gytundeb i Drafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. |
| | | |
| 4 | TrawsCymru | Rhan o rwydwaith TrawsCymru.<br>Dan gytundeb i Gyngor Gwynedd.<br>Llywodraeth Cymru wedi talu am y bysiau trydan a'r isadeiledd gwefru. |
| | | |
| 5 | Fflecsi | Rhan o gynllun ehangach fflecsi Trafnidiaeth Cymru.<br>Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r bws. |
| | | |
| 6 | Fflecsi | Rhan o gynllun ehangach fflecsi Trafnidiaeth Cymru.<br>Dan gytundeb i Gyngor Gwynedd.<br>Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r bysiau. |
| | | |
| 7 | Gwasanaeth Bws Lleol:<br>Cytundeb drwy Gaffael | Dan gytundeb i Gyngor Gwynedd.<br>Y Cyngor sydd yn gosod y manylebau o ran lefel y gwasanaeth ayyb |

## 3. Cynllun y Cyngor 2023-28

3.1 Fel rhan o flaenoriaeth Gwynedd Werdd, Cynllun y Cyngor 2023-28, mae'r isod wedi ei adnabod fel un uchelgais:

- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

3.2 Gyda'r prosiect isod yn fodd o gyflawni hyn:

- Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos.

- Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.

3.3 Mae'r canlynol yn rhoi diweddariad ar y prosiect:

3.3.1 Mae Cyngor Gwynedd drwy gyd-weithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru, wedi bod yn adolygu rhwydwaith bysus cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae hyn wedi cael ei wneud ar sail ardal wrth ardal.

3.3.2 Mae gwasanaethau newydd wedi cychwyn yn ardaloedd:

- Caernarfon a Dyffryn Nantlle (Gorffennaf 2023)
- Meirionnydd (Chwefror 2024)
- Bangor a Dyffryn Ogwen (Mehefin 2024)

3.3.3 Mae'r contractau yma wedi eu gosod ar sail pum mlynedd gydag opsiwn am hyd at ddwy flynedd ychwanegol.

3.3.4 Aethpwyd allan i dendr yn ardal Dwyfor ym mis Ebrill 2024 yn anffodus ni fu'n bosib gwobrwyo'r tendrau oherwydd:

- Diffyg diddordeb a chystadleuaeth yn darparu'r lefel o wasanaeth a gyflwynwyd i'r farchnad.
- Nid oedd y tendrau a dderbyniwyd yn cwrdd ag anghenion y manylebau.
- Roedd y tendrau a gyflwynwyd yn sylweddol uwch na'r prisiau presennol a oedd angen yr un lefel o adnodd i'w darparu ond wedi ei trefnu mewn ffyrdd amgen.
- Roedd y prisiau a dderbyniwyd drwy'r broses pwrcasu yn dipyn uwch o'i gymharu â chostau a welwyd yn ardaloedd eraill ac felly ddim yn fforddiadwy.

3.3.5 Oherwydd y rhesymau uchod bu'n rhaid ail dendro'r gwasanaethau presennol yn union yr un peth a rhai blaenorol am gyfnod o ddwy flynedd gydag opsiwn + 1 + 1 blwyddyn.

3.3.6 Bu i'r gwasanaeth T22 gychwyn ar 12 Chwefror 2024 gan ddefnyddio 4 bws trydan. Mae'r gwasanaeth newydd yn gweithredu rhwng Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Caernarfon. Ymhelaethir isod (4.12) am y defnydd cychwynnol o'r gwasanaeth.

## 4. Materion i'w Craffu

**Beth yw'r sefyllfa o ran defnydd y cyhoedd o wasanaethau cludiant cyhoeddus?**

4.1 Gweler isod wybodaeth nifer y siwrneiau yn yr ardaloedd ble rydym wedi tendro bysiau cyhoeddus gan gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Mae rhain yn rhoi blas o'r defnydd, ond nid yn adlewyrchu'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd gan nad ydym yn derbyn y data ar gyfer gwasanaethau masnachol.

4.2 Dyma'r gwahaniaeth data 2022/2023 v 2023/2024

| Gwasanaeth | Siwrneiau 2022/23 | Siwrneiau 2023/24 | Cymhariaeth |
|---|---|---|---|
| **Rhwydwaith Caernarfon + Dyffryn Nantlle** | 284,671 | 312,043 | +**10%**, sef cynnydd o **27,372** siwrne |
| **Rhwydwaith 'Arfordir Cambrian G23** (Tachwedd i Mawrth) | 25,638 | 27,788 | +**8%**, sef cynnydd o **2,150** siwrne |
| **Sherpa'r Wyddfa** | 399,086 | 511,194 | +**28%**, sef cynnydd o **112,108** siwrne |
| **Rhwydwaith Gwynedd yn ei gyfanrwydd** | 1,752,434 | 1,900,867 | +**8%**, sef cynnydd o **148,433** siwrne |

4.3 Mae'r canlynol yn dangos data siwrneiau ar wasanaethau TrawsCymru sy'n cael eu comisiynu a rheoli gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ond yn rhan allweddol o'r rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd.

T2 Bangor – Aberystwyth
T3 Abermaw – Wrecsam
T10 Bangor – Corwen

| | Q1 | | | Q2 | | | Q3 | | | Q4 | | | Total | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Apr-22 | May-22 | Jun-22 | Jul-22 | Aug-22 | Sep-22 | Oct-22 | Nov-22 | Dec-22 | Jan-23 | Feb-23 | Mar-23 | | |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| T2 | 21878 | 23788 | 23920 | 26042 | 27290 | 27254 | 25907 | 25500 | 22495 | 22886 | 24516 | 27041 | 298517 | |
| T3 | 13355 | 14782 | 15719 | 17062 | 16051 | 17612 | 15826 | 14708 | 12584 | 13337 | 13789 | 14603 | 179428 | |
| T10 | 1706 | 1733 | 2101 | 2137 | 2395 | 1781 | 3054 | 2733 | 2501 | 2643 | 3201 | 3225 | 29210 | |
| | Apr-23 | May-23 | Jun-23 | Jul-23 | Aug-23 | Sep-23 | Oct-23 | Nov-23 | Dec-23 | Jan-24 | Feb-24 | Mar-24 | | |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| T2 | 25814 | 29374 | 29562 | 28881 | 28769 | 30118 | 29446 | 29395 | 24516 | 24100 | 25238 | 27955 | 333168 | 12% |
| T3 | 14783 | 17655 | 17589 | 17288 | 16166 | 17253 | 14291 | 13189 | 12508 | 11723 | 13284 | 14846 | 180575 | 1% |
| T10 | 3885 | 4498 | 4324 | 4691 | 5241 | 4609 | 4048 | 2653 | 2984 | 3231 | 3435 | 4565 | 48164 | 65% |

**A yw’r adolygiad wedi llwyddo i ymateb i ofynion cymunedau?**

4.4 Bwriad yr adolygiad oedd:

- Gwneud y mwyaf o adnoddau er mwyn uchafu cyfleoedd teithio atyniadol i’r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys darpar gwsmeriaid yn ogystal â rhai presennol er mwyn ceisio gwneud y gwasanaethau yn amgylcheddol ac ariannol hyfyw a chynaliadwy.
- Cael cyfundrefn glir a thryloyw o ran sut mae’r gwasanaethau yn cael eu cynnal. Mae hyn yn holl bwysig ac angenrheidiol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni ac mae hefyd angen sicrhau tegwch, elfen o gystadleuaeth a chydymffurfiaeth â phrosesau caffael sy'n ymwneud â gwariant sylweddol o arian cyhoeddus.

4.5 Yn yr ardaloedd ble mae allbwn yr adolygiad wedi ei rhoi ar waith rydym wedi:

- Cyflwyno amserlenni safonol sy’n hawdd i’w deall a chofio.
- Cyflwyno amlder gwasanaeth uwch ar ambell drywydd.
- Cyflwyno pris tocynnau safonol ac atyniadol yn seiliedig ar bellter.
- Gweld gwell cydlynu gwasanaethau mewn hybiau sy’n caniatáu gwell integreiddio a chysylltedd rhwng gwasanaethau ac felly’n hwyluso teithio pellach yn ogystal â lleol.
- Cyflwyno darpariaeth amgen yn lle gwasanaethau hanesyddol/traddodiadol ble roedd y defnydd wedi bod yn isel neu isel iawn.

4.6 Mae hyn wedi arwain at, ar y cyfan, adborth cadarnhaol a chynnydd yn nifer y teithwyr sydd yn argoeli’n dda ar gyfer hyfywdra a chynaladwyedd y gwasanaethau wrth symud ymlaen.

4.7 Mae hyn mewn hinsawdd ble roedd niferoedd y teithwyr bws ar draws Cymru wedi bod yn gyson neu ostwng. Mewn ardaloedd eraill mae yna resymoli a chwtogi yn lefelau gwasanaethau bws eisoes wedi eu gweithredu ac mae’n debygol fydd fwy o hyn yn y tymor byr i ganolig.

4.8 Yn anffodus, ni fydd byth yn bosibl diwallu anghenion a disgwyliadau teithio pawb. Er mwyn bod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol, mae'n ofynnol i nifer hanfodol o gwsmeriaid deithio ar y bysiau yn rheolaidd ac yn barhaus. Ni fydd bysiau yn gallu cwrdd ag anghenion unigol neu ble mae’r niferoedd yn fach neu fach iawn.

4.9 Mae’r ffigyrau teithwyr yn galonogol ac yn cefnogi’r farn fod yr adolygiad wedi bod yn llwyddiant. Mesur arall o lwyddiant yw’r ffaith fod cyllid wedi ei ennill er mwyn cefnogi a chynnal y rhwydwaith newydd ar sail yr ymagwedd o gyd-weithio oedd yn sail i’r adolygiad.

**Pa mor llwyddiannus yw'r defnydd o fysiau trydan?**

4.10 Bu i'r gwasanaeth T22 gychwyn ar 12 Chwefror 2024 gan ddefnyddio 4 bws trydan. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng Blaenau Ffestiniog a Porthmadog bob awr a rhwng Porthmadog a Caernarfon bob 2 awr Llun i Sadwrn. Mae gwasanaeth ar y Sul rhwng Blaenau Ffestiniog a Porthmadog yn unig.

**Defnydd o'r gwasanaeth**

| Mis | Nifer teithwyr |
|---|---|
| Chwefror 2024 | 7,680 o 12 Chwefror 2024 |
| Mawrth 2024 | 13,135 |
| Ebrill 2024 | 13,558 |
| Mai 2024 | 14,887 |
| Mehefin 2024 | 15,368 |

4.11 Fel y gwelir mae'r niferoedd teithwyr yn cynyddu yn fisol, gyda nifer o deithwyr yn teithio am y tro cyntaf ers i'r bysiau trydan gychwyn.

4.12 Mae'r adborth wrth y darparwr o ddefnyddio'r bysiau trydan wedi bod yn gadarnhaol a galonogol o safbwynt gweithredol.

4.13 Tra bod bysiau trydan yn well i'r amgylchedd mae'n annhebyg fod hyn yn ei hunan yn cael dylanwad sylweddol ar ddefnydd. Fe fydd ffactorau eraill fel lefel y gwasanaeth i gynnwys amlder, trywydd, dyddiau ac oriau gweithredu a chost teithio yn cael dylanwad mwy uniongyrchol ar hyn.

4.14 Yn ystod 2024 mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyflwyno bysiau disel newydd ar drywydd TrawsCymru y T2 a T3 sydd yn gweithredu yng Ngwynedd.

**Cyfleodd a heriau yn y maes.**

4.15 Fe fydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau bws yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i adolygu'r modd mae gwasanaethau bws yn cael eu darparu yma. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at wneud y mwyaf o adnoddau gan osgoi dyblygu, cydlynu gwell o'r rhwydwaith ar sail holistig gan roi teithwyr yn ganolog i sut mae'r system yn cael ei dylunio a darparu. Roedd yr ymagwedd yma yn greiddiol i'r adolygiad diweddar i'r rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd.

4.16 Heb os nag oni bai'r her fwyaf yn y maes ydi'r cymhlethdodau a risgiau ariannol sydd yn gysylltiedig â chynnal y rhwydwaith bws. Mae yna nifer o ffrydiau cyllido sy'n cael eu cadarnhau ar sail flwyddyn i flwyddyn, gan gyfrannu at yr ansefydlogrwydd, pryder a risg ac yn ei gwneud yn anodd cynllunio i'r dyfodol gyda hyder.

4.17 Ar hyn o bryd, mae nifer o ffrydiau incwm yn cynnig sylfaen ariannol ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol, sy'n cynnwys:

- Blwch Tocynnau
- Talu am gludo dysgwyr cymwys
- Taliadau cymhorthdal am gontractau wedi'u tendro a/neu trefniadau de-minimis
- Taliadau Cilomedr Byw y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau
- Taliadau ad-dalu y Cynllun Teithio Rhatach Gorfodol

4.18 Bydd proffil a gwerth yr uchod yn amrywio, yn sylweddol o bosibl, rhwng gweithredwyr a llwybrau. Felly, mae'r cymhlethdod o ran y ffordd yr ariannir gwasanaethau yn fater anodd ei ddadansoddi mewn ffordd wrthrychol, ystyrlon a defnyddiol, gan fod proffil y ffrydiau incwm yn gallu amrywio'n sylweddol.

4.19 Mae swyddogion o'r Uned Gludiant Integredig mewn cyswllt parhaus gyda chyfoedion yn Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a Awdurdodai Lleol eraill gyda'r bwriad o sicrhau'r gefnogaeth ariannol o wahanol ffrydiau sydd ei angen er mwyn cynnal y rhwydwaith. Mae hyn wedi bod yn allweddol yn sicrhau'r cyllid ychwanegol sydd wedi bod ei angen i gynnal y rhwydwaith presennol yn deillio o'r adolygiad traws sirol.

4.20 Yn sgil COVID cafodd arian sylweddol ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal a chefnogi'r diwydiant bysiau yng Nghymru drwy'r cyfnod anodd a heriol hynny. Roedd hyn drwy wahanol grantiau gafodd ei adolygu ac addasu dros y cyfnod. Erbyn hyn mae hyn wedi ei gynnwys fel rhan o Grant Rhwydwaith Bysiau.

4.21 Mae'n debygol fydd newidiadau pellach i sut mae'r arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth bysiau yng Nghymru yn y blynyddoedd sydd i ddod. Y gobaith yw fydd y trefniadau yn cael eu rhesymoli a dod yn gliriach gyda newidiadau deddfwriaethol a strwythurol. Gyda hyn, cynnal y rhwydwaith a lefel darpariaeth ar ei newydd wedd fydd y blaenoriaeth yn y tymor byr i ganolig yng Ngwynedd.

4.22 Mae heriau a risgiau eraill sydd yn cynnwys hyfywdra a gwydnwch y farchnad darparwyr lleol. Mae wedi bod, ac yn parhau, yn gyfnod heriol ac anwadal i'r darparwyr a'r farchnad yn gyffredinol gyda nifer o ffactorau yn cyfrannu at hyn gan gynnwys:

- diffyg gyrwyr bws Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV) cymwys a phrofiadol.
- problemau capasiti sy'n cyfyngu ar y gwaith o hyfforddi ac arholi gyrwyr newydd.
- costau gweithredu uwch ac anwadal sy'n cynnwys y rhai sy'n ymwneud â thanwydd.
- newidiadau i fecanweithiau cymorth a chyllid.
- ansicrwydd am batrymau teithio, defnydd ac incwm blwch tocynnau yn y dyfodol.
- newidiadau mewn perthynas â rolau, ymyriadau a chyfrifoldebau llywodraethol.
- amhariad ar gadwyni cyflenwi sy'n effeithio ar danwydd, cyflenwi cerbydau a darnau.
- adolygu modelau busnes gan egluro incwm a chostau gweithredol go iawn.

4.23 Mae nifer o gwmnïau wedi gadael y diwydiant dros y blynyddoedd diwethaf ar draws y wlad. Os na fydd y farchnad lleol yn medru cwrdd a diwallu anghenion mae'n bosib fydd angen edrych ar fodelau eraill o ddarparu gwasanaethau gan gynnwys ar sail gweithredwr dewis olaf.

4.24 Mae risgiau ariannol, cyfreithiol, enw da, economaidd a chymdeithasol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth o wasanaethau bws lleol.

**Datblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol ac effaith y datblygiadau ar Wynedd.**

4.25 Mae'r Cydbwyllgor Corfforaethol Rhanbarthol yn ymsefydlu ac mae hyn yn cynnwys gwaith i sefydlu is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

4.26 Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd y Cynllun yn cefnogi partneriaid lleol i weithio ar lefel strategol i gymryd yr amcanion a nodir yn Llwybr Newydd - Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru - a'u cyflawni mewn ffordd sydd wedi ei deilwra i'w cyd-destun. Bydd yn sicrhau bod gwasanaethau yn ateb anghenion y bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae rhaglenni Metro Llywodraeth Cymru yn ganolog i'r weledigaeth o system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy, ac effeithlon, a nodir yn Llwybr Newydd.

4.27 Mae adolygiad o'r ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau bws yng Nghymru yn mynd rhagddo. Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Bapur Gwyn **Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru** (Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru [HTML] | LLYW.CYMRU)sy'n gosod allan ei chynigion i drawsnewid gwasanaethau bws yng Nghymru. Dyhead Llywodraeth Cymru yw symud tuag at fodel o fasnachfraint ble fydd modd cymryd trosolwg mwy holistig a fwy o reolaeth dros y rhwydwaith gan y sector gyhoeddus. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i Wynedd pan fydd y cytundebau cyfredol yn dod i ben.

4.28 Cafodd adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru: adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU) ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023. Mae hwn yn cynnwys trosolwg, ar sail ranbarthol, o'r sefyllfa gyda bysiau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

4.29 Bydd angen fod yn fyw ac ymateb yn gadarnhaol i newidiadau yn y ffynonellau cyllido sydd yn tanategu'r rhwydwaith bysiau yn Ngwynedd gan fod hyn yn hanfodol i'w cynnal. Mae hyn yn berthnasol ta waeth ar pwy sail mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu gan eu bod i gyd yn cynnig cyfleoedd teithio i drigolion Gwynedd.

## 5. Cwestiynau Ychwanegol

**Sut gall Aelodau Etholedig gynorthwyo'r adran wrth iddynt ymdopi gyda newidiadau i gludiant cyhoeddus a chynnig syniadau i sicrhau gwasanaeth ble mae bylchau presennol?**

5.1 Fel sydd eisoes yn digwydd, cyfathrebu parhaus gyda'r Uned Gludiant Integredig.

**Beth yw trefniadau'r Gwasanaeth i gyfathrebu newidiadau i wasanaethau bws gyda chynghorwyr lleol?**

5.2 Mae staff yr Uned Gludiant Integredig yn edrych i gyfathrebu a diweddaru rhanddeiliaid lleol gan gynnwys a Chynghorwyr cyn gynted ag mae posib. Mae hyn yn amlwg yn niddordeb a budd pawb. Mae hyn hefyd yng nghyd-destun nad yw'r Uned yn gyfrifol am y rhwydwaith yn ei chyfanrwydd a gyda hyn yn adweithio a rhannu gwybodaeth am newidiadau ble fod eraill wedi gwneud penderfyniadau a/neu yn arwain.

5.3 Rydym yn gweithio yn agos gyda Trafnidiaeth Cymru i rannu gwybodaeth am wasanaethau mae nhw'n eu darparu, yn gyfrifol amdanynt neu a diddordeb ynddynt.

5.4 Mae gwybodaeth am newidiadau yn cael ei ddiweddaru ar tudalennau we'r Cyngor: (Amserlenni bws (llyw.cymru)) a gwybodaeth yn cael ei rannu ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor, a gwybodaeth hefyd yn cael ei osod am unrhyw newidiadau o bwys ar y Mewnrwyd Aelodau.

**Faint o gyfnod sydd rhwng dyfarnu contract a newidiadau i wasanaethau bws yn dod i rym? A oes modd sicrhau cyfnod digonol cyn gweithredu'r newid er mwyn rhoi amser i ddefnyddwyr ymgyfarwyddo gyda'r newid?**

5.5 Mae hyn yn gallu dibynnu ar be sydd wedi arwain at y broses pwrcasu. Os yw hyn wedi ei raglennu, yna mae'r cyfnod yn dueddol o fod yn fwy estynedig tra bod hyn yn fyrrach pan fod y broses wedi ei gychwyn mewn adwaith i benderfyniadau gan eraill.

5.6 Mae angen i ddarparwyr, ta waeth pwy sail mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gofrestru unrhyw wasanaeth bws gyda'r Comisiynydd Traffig a mae protocolau, ymrwymiadau a disgwyliadau yn gysylltiedig â hyn Yn gyffredinol mae angen i ddarparwyr roi 56 diwrnod o rybudd i'r Comisiynydd Traffig cyn newid, dechrau neu dod a gwasanaeth i ben.

5.7 Mae prosesau pwrcasu yn medru bod yn gymhleth a mae llawer o waith ac ystyriaethau yn digwydd yn y cefndir all ond ddigwydd yn ystod gwahanol gamau o'r broses. Golyga hyn nad yw wastad yn bosib cynnig y lefel o rybudd y byddai unrhyw un yn dymuno cyn i newidiadau cael eu cyflwyno.

5.8 Cyn belled a phosib mae staff yr Uned Gludiant Integredig yn gweithio'n galed i roi'r trefniadau gweithredol a gweinyddol yn eu lle ac yna darparu'r wybodaeth am unrhyw newidiadau gyda rhanddeiliaid allweddol sydd yn cynnwys y cyhoedd a Cynghorwyr unwaith mae'r rhain wedi eu cadarnhau.

**Sut mae llwybr bws yn cael ei gynllunio a pa ystyriaethau sydd mewn grym er mwyn sicrhau bod y llwybr mor addas â phosibl i gymunedau?**

5.9 Mae hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau. I gychwyn ar ba sail mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu hynny yw yn fasnachol, rhannol fasnachol neu gael ei gomisiynu.

5.10 Fel egwyddorion cyffredinol y bwriad fydd gwneud y gorau o adnoddau, yn nhermau cerbydau a gyrwyr, er mwyn uchafu defnydd gan ddarparu gwasanaethau sy'n atyniadol. Gall hyn olygu a chynnwys rhesymoli ar hyd prif drywydd heb wasanaethu pob cymuned er mwyn cadw amser teithio rhesymol ac atyniadol i'r mwyafrif. Mae'r ystyriaethau a egwyddorion yma wedi llywio ac arwain yr ymagwedd at yr adolygiad diweddar.

**Sut ydych yn cydweithio gyda darparwyr?**

5.11 Mae staff yr Uned Gludiant Integredig mewn cyswllt parhaus gyda'r darparwyr. Yr ymagwedd yw ceisio cynnal perthynas iach er budd teithwyr. Mae hyn yn y cyd-destun na fydd ein blaenoriaethau ac amcanion gwastad wedi ei alinio. Mae amryw o resymau am hyn, sy'n cynnwys bydd y Cyngor yn cymryd trosolwg o'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd pan fydd ffocws y darparwyr, yn hollol ddealladwy, yn dueddol o fod ar ei gweithrediad nhw eu hunain.

## 6. Casgliadau

6.1 Mae'r trefniadau a ffrydiau cyllido sy'n cynnal y rhwydwaith bysiau yn gymhleth. Mae 'na nifer o wahanol ffactorau sydd yn medru dylanwadu ar y sefyllfa o safbwynt costau a'r math a lefel o wasanaeth mae'n bosib ei gynnig.

6.2 I'r mwyafrif o randdeiliaid, a theithwyr yn enwedig, ni fyddant yn ymwybodol na phoeni llawer ar ba sail mae gwasanaeth bws yn cael ei ddarparu. Yr hyn sydd yn bwysig iddyn nhw yw fod na fws sydd yn cwrdd â'r anghenion os nad wastad eu dymuniadau, dyheadau a disgwyliadau.

6.3 Mae na risgiau amlwg i'r Cyngor yn hyn o beth oherwydd tra all rhanddeiliaid eraill i rhyw raddau troi ei cefnau a cerdded i ffwrdd fe fydd yna ddisgwyliad fod y Cyngor rhyw fforddd yn cynnal y ddarpariaeth. Yn aml pan mae newidiadau yn digwydd, beth bynnag yw'r sail a'r achos am rheiny, troi tuag yr awdurdod lleol mae rhanddeiliaid yn dueddol o wneud gan ddisgwyl ymatebion a datrysiadau.

6.4 Mae wedi bod yn gyfnod heriol parhaus i'r diwydiant bysiau ar draws Cymru ac mae yna nifer o resymau wedi bod am hyn. Mae'r sefyllfa wedi cyrraedd pwynt mewn rhai ardaloedd mae nid o reidrwydd diffyg cyllidebau sydd yn arwain at resymoli a lleihad yn nifer y cyfleoedd teithio ond yn hytrach fod y farchnad leol ddim yn gallu neu ddim am wneud y ddarpariaeth. Mae lefel y ddarpariaeth, hyd yn oed gyda chefnogaeth ariannol, yn adlewyrchu be mae'r darparwyr yn gallu ac am ei ddarparu yn hytrach na be fyddai'r awdurdod lleol yn ei ddymuno.

6.5 Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â gwaith rhagweithiol, ar y cyd gyda Thrafnidiaeth Cymru, er mwyn adolygu a gosod sail i rwydwaith ar ei newydd wedd. Mae hyn yn cael ei adnabod fel ymarfer da a'r arddull y mae Llywodraeth Cymru am ei weld wrth symud tuag ar system bysiau cyhoeddus sydd yn cael ei gynnal a darparu ar sail masnachfraint. Rhagdybir bydd yr adolygiad cynhwysfawr nesa o'r rhwydwaith bysiau yn dilyn y cyfnod yma yn cael ei wneud ar sail masnachfraint, fydd yn adlewyrchu newid mewn deddfwriaeth a hefyd rôl a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a'r Cydbwyllgorau Corfforaethol.

6.6 Mae'r gwaith yma wedi arwain at fuddion i deithwyr drwy ddarparu gwasanaethau mwy atyniadol, cyson a phriodol i adlewyrchu anghenion mewn gwahanol ardaloedd o Wynedd. Mae'r gwaith hefyd wedi gwneud y gorau o adnoddau o fewn y system drwy well cydlynant o wasanaethau sydd yn cynnwys integreiddio a rhyngwyneb rhwng y ddarpariaeth leol a gwasanaethau y TrawsCymru. Er hyn, mae yna godiad sylweddol wedi bod yng nghostau'n gysylltiedig â darparu bysiau cyhoeddus ac mae'r sefyllfa ariannol sy'n cynnal rhwydweithiau yn gymhleth ac anwadal.

6.7 Gyda hyn, fe fydd angen i'r Cyngor fod yn fyw i hyn gan ystyried opsiynau i ymateb i amryw senarios sydd yn aml du hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gwmnïau masnachol, newidiadau mewn nifer teithwyr, newidiadau mewn ffrydiau, symiau a dyraniadau grantiau Llywodraeth Cymru.

6.8 Yn yr hinsawdd ariannol gynyddol heriol i'r Cyngor, fe fydd angen ystyried faint o arian a sut mae'r Cyngor yn dymuno a medru ei gyfrannu at gynnal y rhwydwaith. Pe byddai angen rhesymoli a lleihau gwasanaethau yn y byr dymor i adlewyrchu'r sefyllfa ariannol, yna byddai hyn yn peri risgiau o safbwynt heriau posib am ddiddymu cytundebau, sgil effaith lleihau cyfleoedd teithio ar drigolion Gwynedd a bod hyn yn mynd i'r gwrthwyneb o nifer o'r uchelgeisiau ac amcanion strategol ar lefel genedlaethol (Llwybr Newydd - Strategaeth Trafnidiaeth Cymru), rhanbarthol (Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol) a lleol (Cynllun Gwynedd 2023-28, Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur).

6.9 Mae 'na esiamplau ar draws Cymru ble ma' lefel gwasanaeth bws a chyfleoedd teithio wedi ei lleihau, rhesymoli ac mewn rhai achosion wedi ei golli yn gyfan gwbl ac mae hyn yn cynnwys gwasanaethau bws traddodiadol a rhai fel y Bwcabus/Fflecsi yn ne orllewin Cymru.

6.10 Y realiti anodd yw, er mwyn cynnal yr un, neu lefel debyg, o gyfleoedd i deithio ar fws mae hyn yn mynd i gostio mwy mewn amser pan fod na wasgfa, her a gostyngiad parhaus mewn cyllidebau yn gyffredinol ac yn benodol o fewn y maes trafnidiaeth. Mae'n hinsawdd anwadal iawn gyda ffactorau sy'n dylanwadu yn newid yn gyflym ac yn barhaus.

## 7. Ymgynghori

7.1 Mae cyswllt, ymgynghori ac ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid allweddol, mewnol ac allanol, yn digwydd ar sail barhaus. Mae hyn yn cynnwys y cyhoedd, cydweithwyr mewn adrannau eraill, gwleidyddion, darparwyr, awdurdodau lleol eraill, Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

7.2 Rydym yn ceisio ymateb yn gadarnhaol i'r adborth a mewnbwn sy'n cael ei dderbyn pan mae cyfle a'r gallu i wneud hyn. Mae 'na esiamplau o hyn wedi ei gyflawni fel rhan o'r adolygiad diweddar.

7.3 Mae'n medru bod yn anodd ymgynghori mewn modd deallus a pwrpasol ar rai agweddau o ddarpariaeth bysiau. Yn anochel pan fydd newidiadau yn cael eu crybwyll, naill ai wedi eu dylunio a chynllunio neu ar sail adweithiol, mae'n gallu bod yn anodd cael consensws am be a phwy sy'n cael blaenoriaeth. Yn aml felly mae angen ceisio edrych am gyfaddawd.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

8.1 Rydym yn **cynnwys** trigolion a defnyddwyr gwasanaeth drwy dderbyn adborth. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau, cwynion, sylwadau a mewnbwn arall gan y cyhoedd, defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau ar sail barhaus.

8.2 Mae system cludiant cyhoeddus sy'n fforddiadwy, hyfyw ac amgylcheddol gynaliadwy yn dibynnu ar nifer critigol yn defnyddio'r gwasanaethau ar sail barhaus. Gyda hyn mewn golwg rydym yn edrych i ymateb yn gadarnhaol i'r cyswllt drwy ddarparu'r lefel mwyaf atyniadol o wasanaethau posib gyda'r adnodd sydd ar gael gan dderbyn na fydd modd plesio pawb. Mae hyn yn enwedig o wir ble mae'r galw yn isel neu isel iawn. Mae hyn yn y cyd-destun nad yw'r Cyngor yn llwyr gyfrifol nac yn rheoli'r rhwydwaith yn ei chyfanrwydd gan fod rôl yn hyn gan y darparwyr eu hunain a fwyfwy Trafnidiaeth Cymru.

8.3 Rydym yn **cydweithio** gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n cynnwys y darparwyr, Llywodraeth Cymru a fwyfwy Trafnidiaeth Cymru. Mae swyddogion wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda'i chyfoedion yn Nhrafnidiaeth Cymru ac mae'r ymagwedd yma at gydweithio wedi tanategu'r adolygiad diweddar a'r buddion yn deillio o hynny.

8.4 Ar lefel strategol rydym yn rhoi mewnbwn i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drwy'r Cydbwyllgor Corfforaethol.

8.5 Rydym yn cydweithio gyda:

- Awdurdodau Lleol eraill a Trafnidiaeth Cymru ar brosiectau penodol sy'n cynnwys Sherpa'r Wyddfa.
- Awdurdodau Lleol eraill ar sail rhanbarthol wrth weinyddu rhai grantiau.
- Trafnidiaeth Cymru / Llywodraeth Cymru ar wasanaethau penodol yn cynnwys rhwydwaith y TrawsCymru a fflecsi.
- Trydydd Sector ar wasanaethau cludiant cymunedol i weld ble mae modd llenwi bylchau dyw cludiant cyhoeddus traddodiadol ddim yn ei gyfarch.

8.6 Rydym yn edrych i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol drwy gydweithio yn agos gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill gan fod yn fyw i'r ffaith fod yn gyfnod anwadal ac yn un fydd yn gweld trawsnewid yn sut mae bysiau cyhoeddus yn cael ei darparu yng Nghymru.

8.7 Rydym yn ystyried yr **hirdymor** drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gwaith y Cydbwyllgor Corfforaethol.

8.8 Mae natur y maes gwaith yn golygu angen i **integreiddio** gyda chyrff cyhoeddus eraill sydd yn cynnwys Awdurdodau Lleol eraill a Llywodraeth Cymru ar sail barhaus a bod hyn yn debygol o gynyddu fel i'r Cydbwyllgor Corfforaethol ymsefydlu.

## 9. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol

9.1 Mae darparu lefel o wasanaeth cludiant cyhoeddus yn cefnogi cymunedau gwydn a ffyniannus.

9.2 Mae'r wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu gan y cyngor yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 10. Camau Nesaf

10.1 Monitro'r gwasanaethau ar eu newydd wedd ac edrych i ymateb yn gadarnhaol i adborth a dderbynnir ble'n bosib a phriodol gwneud hyn.

10.2 Ymateb i unrhyw newidiadau yn gwasanaethau sydd yn cael ei darparu ar sail masnachol a/neu de-minimis.

10.3 Edrych i sicrhau'r cyllid angenrheidiol i gynnal y rhwydwaith.

10.4 Parhau i gydweithio gyda'r prif rhanddeiliaid eraill gan gynnwys y darparwyr, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill i wneud y mwyaf o'r ddarpariaeth a chyfleodd teithio.

10.5 Codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd yn tanategu a chynnal y rhwydweithiau bysiau lleol gyda'r bwriad o gwrdd â disgwyliadau lle yn bosib a rheoli a gostwng disgwyliadau lle dyw cwrdd â'r rhain ddim yn bosib.

10.6 Darparu mewnbwn ar lefel cenedlaethol, strategol a rhanbarthol fydd yn cael dylanwad ar y ddarpariaeth yn y tymor byr, canolig a hir gyda'r bwriad o ddarparu'r lefel gorau posib o wasanaethau bws i drigolion Gwynedd.

10.7 Ceisio dylanwadau ac wedyn ymateb yn gadarnhaol i newidiadau deddfwriaethol a strwythurol fydd yn cael effaith ar rwydweithiau bysiau.

10.8 Ail edrych ar y rhwydwaith a trefniadau yn Nwyfor gan wneud gwaith ymbaratoi i alinio gyda chyfnod y cytundebau sydd wedi eu rhoi mewn lle. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu gydag Aelodau Lleol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 12/09/2024 |
| **TEITL** | Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| **AWDUR** | Roland Thomas, Pennaeth Adran Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Craffwyd y rhesymau tu ôl i orwariant yn y maes ac amlinelliad o'r rhaglen waith i adolygu materion oedd angen sylw yn y meysydd gwastraff ac ailgylchu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2023.

1.2 Blaenoriaethwyd yr eitem i'w graffu yn ystod 2023/24 ac fe'i raglenwyd ar gyfer cyfarfod 18 Ebrill 2024. Er mwyn rhoi cyfle i ffrydiau gwaith yn y maes hwn i ddatblygu ymhellach, penderfynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023 i'w ail-raglennu gan ei ystyried yn y gweithdy blynyddol.

1.3 Adnabuwyd y gwasanaeth i'w graffu oherwydd bod prosiect 'Gwastraff ac Ailgylchu' wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 a bod rhai cynlluniau arbedion angen ystyriaethau pellach cyn dod i benderfyniad terfynol.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1 Pwrpas yr adroddiad ydi cyflwyno diweddariad ar raglen waith a materion sydd angen sylw ym meysydd Gwastraff ac Ailgylchu, ac yn benodol:

- Pa gynnydd a wnaed o ran y rhaglen waith?
- Cynnydd a heriau o ran cyrraedd targed ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025
- Beth yw'r rhwystrau/cyfleoedd i gyflawni?
- Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gorwariant?
- Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i wireddu'r arbedion?

2.2 Er nad ydym yn cyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn uniongyrchol yn yr adroddiad, rydem yn teimlo bod yr adroddiad yn ystyried ein bod yn ymateb i'r pum ffordd o weithio sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r saith nod llesiant.

**3. Cefndir / Cyd-destun**

3.1 Yn 2022, fel rhan o newidiadau i strwythur uwch reolaethol corfforaethol y Cyngor, penderfynodd y Cabinet y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb am gasglu a thrin gwastraff ac ailgylchu o'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Adran Amgylchedd.

3.2 Trosglwyddwyd y Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu i'r Adran Amgylchedd yn ffurfiol ym mis Hydref 2022, gyda chyfrifoldeb am y gyllideb yn llawn yn trosglwyddo yn 2023. Adnabuwyd 4 prif flaenoriaeth ar gyfer sylw:

- Gwella gofal cwsmer ac ymdrin ag ymholiadau/cwynion,
- Mynd i'r afael â lefelau salwch uchel,
- Cyrraedd targed ailgylchu cenedlaethol o 70%,
- Rheolaeth o'r gorwariant.

3.3 Ym mis Ionawr 2023 daethpwyd ag adroddiad i'r Pwyllgor Craffu i roi diweddariad ar y gwaith oedd wedi digwydd ers i'r gwasanaeth drosglwyddo, ynghyd ag amlinelliad o gynlluniau'r Adran wrth barhau i drawsnewid a thrawsffurfio'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad yma wedi ei osod allan efo'r rhaglen waith honno dan sylw. **Mae'r rhaglen waith wedi ei osod fel atodiad i'r adrodd yma (Atodiad 1).**

3.4 Ers dechrau ymgymryd â'r gwaith yma rydem fel uwch reolwyr wedi cymryd yr egwyddor nad oes unrhyw beth yn sanctaidd a bod angen adolygu pob maes wrth i ni wireddu'r dyheadau craidd o wella'r gwasanaeth i'n trigolion a'r staff.

**Strwythur**

3.5 Rydem wedi ystyried ein strwythur yn ddwys ac wedi ailstrwythuro ychydig er mwyn sicrhau atebolrwydd, ac er mwyn i staff a'r cyhoedd gael gwell diffiniad ac eglurdeb o reolaeth y gwasanaeth. Mae'r strwythur wedi eu rhannu o dan dri rheolwr penodol, ac mae'r isod yn crynhoi dyletswyddau fesul maes:

- **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu (Casglu)** - darparu gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu o gartrefi Gwynedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gasglu deunydd ailgylchu a bwyd yn wythnosol, a gwastraff gweddilliol pob 3 wythnos. Yn ogystal cesglir gwastraff gardd gan bron i 17,000 o gartrefi sydd wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth, ynghyd a chasgliadau clinigol a chlytiau a gwastraff masnachol i fusnesau a thai gwyliau.

- **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu (Asedau a Thrin Gwastraff)** - darparu gwasanaeth, cyfleusterau a threfniadau i dderbyn, trin a gwaredu gwastraff ac ailgylchu ar ôl iddo gael ei gasglu gan y Cyngor. Mae'r gwasanaeth yn derbyn y gwastraff mewn 3 safle trosglwyddo mewnol ac yn defnyddio un darparwr preifat. O'r safleoedd hyn trosglwyddir gwastraff gweddilliol i Barc Adfer a deunyddiau ailgylchu i'w trin gan 3ydd parti (costau i'r Cyngor) neu i'r farchnad yn uniongyrchol (incwm i'r Cyngor). Mae gan y Cyngor 2 safle trin ein hunain - Caergylchu, yng Nghaernarfon ble gwahanir plastigion, mhetalau a thuniau, a GwyriAD ger Clynnog Fawr ar gyfer prosesu gwastraff bwyd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am redeg 8 canolfan ailgylchu a sicrhau trefniadau ôl-ofalaeth i 3 cyn-safle tirlenwi.

- **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu (Sicrwydd Ansawdd a Data)** - darparu cefnogaeth weinyddol, rheoli cytundebau ac incwm masnachol a gardd, monitro, a sicrhau sicrwydd ansawdd i'r gwasanaethau casglu a gwaredu gwastraff. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu sefydlu a'u harddel. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am ddosbarthu biniau ac am addysgu a hyrwyddo drwy gynnal ymgyrchoedd lleol a traws-sirol i hyrwyddo a helpu trigolion i leihau'r gwastraff a gynhyrchir gan annog mwy o ailgylchu. Yn ogystal mae gan y tîm gyfrifoldeb statudol am adrodd ar ddata gwastraff ac ailgylchu i Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Ble ydym ni mewn cymhariaeth ag Awdurdodau eraill**

3.6 Mae ffigyrau diweddaraf sydd wedi eu cyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am 2022-23 yn dangos fod rhedeg gwasanaeth casglu ac ailgylchu yma yng Ngwynedd yn costio £258.48 fesul eiddo. Mae hyn yn gosod Gwynedd yn drydydd drytaf yng Nghymru. Yn amlwg mae gwahaniaethau rhwng pob awdurdod yng Nghymru o ran daearyddiaeth, demograffig a'r math o wasanaeth sy'n cael ei gynnig, ond mae'n dangos bod cryn dipyn o waith dal angen ei wneud i droi'r gwasanaeth yn un o'r rhai mwyaf effeithlon yng Nghymru.

3.7 Mae cost casglu ailgylchu (sych a bwyd) yng Ngwynedd 37% yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gost o £91.78 y cartref. Yn amlwg mae amrywiaethau o sut mae Awdurdodau eraill Cymru yn gweithredu ond mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn casglu yn wythnosol (17 o awdurdodau) ac yn dilyn glasbrint Llywodraeth Cymru (14), sef casglu ailgylchu wedi ei wahanu ar y stepen drws.

3.8 Mae ein costau prosesu ailgylchu sych yn £9.18 fesul eiddo, mae hyn £8.30 yn uwch na chanolrif Cymru. Mae'n debyg mai un rheswm bod cost gyfartalog Cymru mor isel ydi oherwydd bod rhai awdurdodau yn gallu gwerthu eu cynnyrch am bris uwch na ni yn y farchnad, a gyda gwell telerau efo cwmnïau trin gwastraff. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth rydem yn ymwybodol ohono a bydd hyn yn derbyn sylw pellach yn y paragraffau dilynol.

3.9 Mae ein costau prosesu bwyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae GwyriAD, sef ein safle prosesu bwyd drwy Dreuliad Anerobig, yn brosiect mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo tan 2028. Mae ein perfformiad o ran y lefelau o wastraff bwyd a gesglir o'i gymharu efo gweddill Cymru yn isel - dim ond 68kg o wastraff bwyd rydem yn ei gasglu fesul eiddo, mewn cymhariaeth â chyfartaledd o 90kg gan weddill awdurdodau Cymru. Eto byddwn yn dod yn ôl at hyn yn yr adroddiad.

3.10 Mae cost ein gwastraff gardd yn rhesymol i'w gasglu mewn cymhariaeth â gweddill awdurdodau Cymru, ar gost o £6.36 yr eiddo, ond eto mae ein costau prosesu yn uchel. Rydem yn casglu 90kg o wastraff gardd fesul cartref yng Ngwynedd - mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73kg fesul eiddo. Yn amlwg rydem wedi cwtogi tymor casglu gwastraff gardd am y tro cyntaf yma yng Ngwynedd eleni er mwyn adlewyrchu'r tymor tyfu, ond hyd yn hyn mae'r niferoedd sydd wedi tanysgrifio wedi aros yn gyson. Ni fyddwn yn gwybod tan fis Mawrth 2025 os bydd hyn wedi cael effaith ar y tunelledd a gesglir.

3.11 Mae casglu gwastraff gweddilliol pob tair wythnos yn costio £34.13 fesul eiddo pob blwyddyn. Mae hyn 25% yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae ein costau prosesu yn £50.98 fesul eiddo, sydd yn 19% yn uwch na chyfartaledd yr hyn mae awdurdodau eraill Cymru yn ei dalu. Ond eto rydem mewn cytundeb hir dymor efo pedwar Awdurdod Lleol arall y gogledd i ddargyfeirio ein gwastraff na ellir ei ailgylchu i'w waredu ym Mharc Adfer.

3.12 Felly dyna yw'r darlun cyffredinol wrth gymharu efo gweddill awdurdodau Cymru. Mae rhan nesaf yr adroddiad wedi ei strwythuro fesul pennawd o'r rhaglen waith sydd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu hwn yn barod ym mis Ionawr 2023.


**Adolygu trefniadau casglu**

3.13 Rwyf yn ailadrodd yr hyn gafodd ei gyfleu yn yr adroddiad gwreiddiol sef, does dim dwywaith, fod staff y gwasanaethau yn cyflawni swyddogaeth allweddol ac mae ymdrechion y gweithlu yn cael ei werthfawrogi gan aelwydydd ar draws y sir. Maent yn gyfrifol am gasglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol o tua 64,000 o eiddo domestig ar draws Gwynedd, yn casglu gwastraff gardd, swmpus, clytiau a deunydd meddygol o rai cartrefi ac yn darparu gwasanaeth gwastraff masnachol i tua 2,000 o fusnesau.

3.14 Yn gynnar iawn yn y cyfnod arsylwi daeth i'r amlwg fod gan Gyngor Gwynedd weithwyr cydwybodol a gweithgar ond bod angen newid, tynhau a gwella trefniadau i gefnogi'r gwaith yma. Yn y cyfnod yn dilyn cyflwyno'r adroddiad Craffu (Ionawr 2023), penodwyd Rheolwr Caglu Gwastraff ac Ailgylchu newydd ac fe ailstrwythurwyd lefel yr uwch arweinyddion a'r arweinyddion tîm. Yn ogystal, penderfynwyd rhoi adnodd busnes a gweinyddol yn y depos i gefnogi'r gwaith. Gosodwyd cyfeiriad clir a chymhwysedd i lefel yr arweinyddion, yn enwedig o gwmpas trefniadau salwch a gofynion i leihau dibyniaeth ar oramser i gwblhau'r gwaith.

3.15 Penderfynwyd yn fuan hefyd bod gweithredu trefn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn creu aneffeithlonrwydd ac ymdeimlad o dri gwasanaeth casglu gwastraff yn hytrach nag un gwasanaeth ar gyfer Gwynedd. Cryfhawyd y depo yng Nghaernarfon ar gyfer gwasanaethu ardal y gogledd, sef hen ffiniau Arfon, a depo arall yn Harlech ar gyfer gwasanaethu ardal y de, sef ffiniau'r hen Meirionnydd a Dwyfor. Er bod diffiniad ardaloedd yn debyg i'r hyn oeddynt yn y gorffennol, mae hyn wedi caniatáu inni ail-edrych ar ein strwythur ac ail-ddylunio cylchdeithiau sy'n croesi'r hen ffiniau ardal, heb orfod poeni yn ormodol ble roedd y criwiau wedi eu lleoli. Bydd yr holl gylchdeithiau yn cael eu dylunio a'u haddasu fel hyn yn y dyfodol.

3.16 Yn ystod y cyfnod yma o newid fe welwyd lefelau cwynion uchel am fethiannau casglu gan ein trigolion. Fodd bynnag, fel roedd swyddogion newydd yn setlo i'w rôl a'r gweithwyr casglu yn dod i arfer efo'r drefn newydd, yn araf bach daeth y lefel cwynion i lawr. Mae hyn wedi cyfrannu at wella gofal cwsmer ac wedi helpu i roi delwedd fwy cadarnhaol am y gwasanaeth casglu. Mae'r graff isod yn brawf o hyn.




3.17 Mae rhoi swyddogion busnes a gweinyddol yn y depos yn syniad newydd ond mae eu gwaith wedi bod yn angenrheidiol a phwysig er mwyn bod yn gyswllt cyfathrebu clir ac uniongyrchol rhwng y cyhoedd a'r criwiau casglu. Rydem hefyd yn cydweithio yn agos efo gwasanaethau gofal cwsmer a thechnoleg gwybodaeth y Cyngor i wella ein 'drws ffrynt', a byddwn yn un o'r gwasanaethau cyntaf yn y Cyngor i ddefnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial (AI) i'n helpu efo hyn.


3.18 Rydem yn teimlo fod pethau yn mynd yn dda ar ochr casgliadau gwastraff ar hyn o bryd, ond yn amlwg mae gwaith yn parhau i'w wneud. Mae cryfhau'r cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng y rheolwyr a'r gweithlu wedi arwain at wella cydweithio ac arsylwir hefyd fod mwy o ymdeimlad o falchder gan y gweithlu yn eu gwaith. Rydem yn awyddus i gynnal y momentwm yma er mwyn cyflwyno gwelliannau pellach.

3.19 Rydem ar hyn o bryd yn buddsoddi mewn camerâu gwell i'w gosod ym mhob cerbyd casglu er mwyn gwella trefniadau iechyd a diogelwch. Yn ogystal rydem wedi buddsoddi mewn system technoleg 'in cab' (Bartec), fydd eto yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y criwiau casglu a'n trigolion. Bydd system Bartec hefyd yn galluogi ein criwiau i adrodd ar unrhyw gamddefnydd o'n gwasanaeth, megis cartrefi sy'n cyflwyno gormod o wastraff neu gartrefi nad sy'n ailgylchu. Mae'r criwiau casglu ar hyn o bryd hefyd yn defnyddio'r system Bartec i nodi os ydi'r bin wedi ei gyflwyno ar gyfer ei gasglu neu beidio. Bydd yr wybodaeth yma yn ddefnyddiol wrth inni ymateb i ymholiadau o fethu casglu, a bydd yn rhoi darlun mwy cywir inni o faint o fethiannau casglu rydem wedi ei fethu go iawn.


3.20 Mantais arall y system yw bydd gan y criwiau fapiau casglu electronig. Roedd nifer uchel o gwynion unigol am fethu casglu yn tarddu o ardaloedd gweledig, pan roedd gyrrwr arferol i ffwrdd o'r gwaith, ac roedd ei eilydd yn anghyfarwydd â'r pwyntiau casglu, felly bydd Bartec yn help i ddiwallu camgymeriadau fel hyn. Yn ogystal bydd gofyn i'r gyrwyr gadarnhau ar y system unwaith byddant wedi gorffen casglu stryd neu eiddo penodol. Bydd y system hefyd yn caniatáu'r arweinyddion tîm reoli'r gwaith 'o bell' (remotely), yn hytrach na disgwyl nes bod y criwiau wedi dychwelyd i'r depos, e.e. os oes achos o fethu casglu.

3.21 Nid yn unig bydd gosod camerâu yn helpu i wella iechyd a diogelwch, ond rydem hefyd wedi penodi swyddog iechyd a diogelwch penodol ar gyfer y gwasanaeth casglu gwastraff. Rydem hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd, diogelwch a lles y staff ers y cychwyn. Mae dilyn trefniadau salwch y Cyngor yn sicrhau bod staff yn cael cymorth arbenigol (ffysio, Medra a.y.b.) yn gynt, a'u monitro yn rheolaidd nes eu bod yn dychwelyd i'r gwaith. Yn ogystal, mae pwyslais wedi bod ar rannu negeseuon am iechyd a lles personol yn y depos. Ac wrth gwrs mae'r Adran yma yn croesawu'r Polisi Alcohol a Chyffuriau arfaethedig newydd y Cyngor, gan fydd hyn yn ychwanegu haen arall yn ein nod i sicrhau fod pawb yn ddiogel yn y gwaith.

3.22 Un arall o brif ofynion y briff gwreiddiol oedd dod a lefelau salwch dan reolaeth. Nid yn unig roedd salwch yn cael effaith ar 'moral' gweddill y gweithwyr, ond roedd yn costio i'r gwasanaeth orfod rhoi cyfr tra roedd swyddog yn sâl - drwy un ai gyflogi gweithwyr llanw neu dalu goramser i orffen cylchdeithiau. Fel yr adroddwyd ym mharagraff 3.20 roedd absenoldeb gyrrwr 'arferol' ar gylchdaith wledig yn cynyddu'r cwynion o fethu casglu oherwydd diffyg adnabyddiaeth o'r ardal. Ar adegau roedd lefelau salwch mor uchel fel nad oedd modd cael cerbyd allan i gwblhau cylchdaith casglu. Mae'r graff isod yn dangos y lleihad sydd wedi bod yn lefelau salwch. Roedd nifer o ddyddiau gwaith a gollwyd yn y gwasanaeth oherwydd salwch yn 2022-23 yn 79 diwrnod ar gyfartaledd yr wythnos neu 11.3% o'r gweithlu. Roedd hyn wedi lleihau i 71.6 diwrnod neu 10.6% erbyn 2023-24. Rydem yn disgwyl lleihad bellach eto eleni.





3.23 Penderfyniad arall a wnaethpwyd drwy drafodaethau efo'r gweithlu a'r undebau oedd parhau efo trefniadau tasg a gorffen (task and finish). Ond yn wahanol i'r hen drefn ble roedd hwn yn cael ei weld fel tasg a gorffen personol, newidiwyd y pwyslais yn glir i fod yn dasg a gorffen cyfunol. Rydem yn teimlo bod hyn wedi cyfrannu at well awyrgylch tîm ac wedi helpu gostwng lefelau goramser. Mae lefel y goramser wedi lleihau yn sylweddol (gweler graff isod), a rydem wedi gallu parhau i sicrhau'r gwasanaeth efo'r un nifer o oriau sylfaenol / gweithwyr oedd yn y gwasanaeth pan benderfynwyd ei drosglwyddo i'r Adran. Rydem yn hyderus bydd cyflwyno system Bartec yn ein galluogi ni i barhau i wthio gwelliannau rheolaethol a gwella effeithlonrwydd.




3.24 Un her sydd gan y gwasanaeth i sicrhau trefniadau teg i'r gweithwyr ydi eu gallu i gymryd seibiant o wyliau. Tra bod rhan helaeth o staff y Cyngor wedi bod yn gweithio o adref dros gyfnod y pandemig Covid, bu i'r gweithlu gwastraff fod allan yn casglu, gwaredu a phrosesu gwastraff. Mae hyn wedi arwain at nifer uchel o wyliau wedi ei gronni gan y staff yma.

**Sut fydd y gwasanaeth yn edrych yn y dyfodol**

3.25 Mae Cyngor Gwynedd wastad wedi cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 64%. Fodd bynnag, rydem wedi methu gwthio heibio y canran o 64% ers ambell i flwyddyn bellach. Annhebygol iawn fydd Cyngor Gwynedd o gyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70% erbyn mis Mawrth 2025, ac mae siawns y gallwn wynebu dirwy oherwydd hyn. Mae'n bwysig nodi yma nad pob awdurdod yng Nghymru sydd wedi cyrraedd y targed statudol o 64%, ac mae'r graff isod yn dangos mai 5 awdurdod lleol yn unig oedd wedi cyrraedd y lefel ailgylchu o 70% (2022-23). Rydem yn ffyddiog ein bod efo cynlluniau cadarn i gyrraedd y 70%, ac yn cydweithio a chyfathrebu yn agos efo swyddogion Llywodraeth Cymru a'u hymgynghorwyr ar ein cynlluniau.




3.26 Mae gwaith ymchwil diweddar gan Wrap Cymru wedi rhoi dadansoddiad inni o be sydd, ar gyfartaledd, mewn bin gwyrdd yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Ein her ni ydi ceisio dargyfeirio cymaint o'r deunyddiau yma i'n ffrwd ailgylchu.




3.27 Mae pedwar o swyddogion hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o fewn y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Yn hanesyddol, mae'r swyddogion wedi eu harallgyfeirio i ddelio efo materion eraill o fewn y maes gwastraff, ac yn aml iawn yn datrys problemau unigol yn lleol. Er bod y gwaith yma yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi gan drigolion Gwynedd,

bydd cyfeiriad penodol nawr iddyn nhw fod yn blaenoriaethu gwaith hyrwyddo a newid ymddygiad. Yn ogystal rydem am ail ategu'r neges ailgylchu er mwyn sicrhau bod ein trigolion yn gwahanu eu deunyddiau yn gywir, a bydd pwyslais yn cael ei roi unwaith eto ar ailgylchu gwastraff bwyd. Mae astudiaethau yn dangos bod 'hwb ymddygiadol' (behavioural nudge) a 'sgwrs garreg drws' (doorstepping) yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i lefelau ailgylchu.

3.28 Er nad yw'r strategaeth gyfathrebu wedi ei ysgrifennu eto bydd rhaid sicrhau ein bod yn taro'r egwyddorion craidd a sicrhau ein bod yn gwthio'r geiniog i'r eithaf, drwy asesu:

- i ba raddau byddwn yn llwyddiannus yn sicrhau bydd pobl yn sylwi ar y negeseuon (effaith)
- i ba raddau y bydd y dechneg gyfathrebu yn dylanwadu ar ymddygiad ailgylchu'r bobl sy'n ei dderbyn (dylanwad)
- y manylder y gellir defnyddio'r dechneg i gyrraedd cynulleidfa neu grŵp penodol iawn (targedu).

3.29 Ni allwn dargedu ein trigolion efo'r un neges, bydd yn hanfodol inni adnabod grwpiau megis plant, teuluoedd, myfyrwyr, pobl hŷn a phobl ganol oed, a bydd dosbarthiad cymdeithasol yn bwysig i hyn hefyd. Os na fyddwn yn gweld cynnydd o'r ymgyrchoedd, yna bydd rhaid inni ystyried mabwysiadu rhai pwerau gorfodi ffurfiol i'r swyddogion.

3.30 Cynllun arall rydem am ei dreialu yn y misoedd nesaf yw caglu deunyddiau papur a chardfwrdd, a chaniau a phlastigion mewn sachau hesian yn hytrach na'r system troli-bocs Cartgylchu. Er na fydd canlyniadau'r peilot yn wybyddus am rai misoedd, rydem fel swyddogion yn gobeithio bydd hyn yn llwyddiannus, oherwydd yn bennaf, mae'n mynd i gynyddu faint o gapasiti fydd gan drigolion i ailgylchu. Mae awdurdodau eraill sy'n defnyddio trefn debyg yn adrodd bod y deunydd ailgylchu o well ansawdd oherwydd ei fod yn cael ei wahanu yn well, ac wrth gwrs fe fydd y sachau hesian yn rhatach i'r Cyngor na phrynu ac amnewid Cartgylchu.

3.31 Yn ystod yr hydref mi fyddwn yn ymgynghori a chyhoeddi **Strategaeth Wastraff** newydd. Mae hyn yn flaenoriaeth sydd wedi ei adnabod yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Werdd. Yn amlwg mi fyddwn yn amlinellu ymhellach sut rydem am gyrraedd y targed ailgylchu o 70%, ond hefyd byddwn yn ystyried amlder casglu gwastraff gweddilliol. Mae ystyried amlder casglu wedi ei adnabod fel un o gynlluniau arbedion y gwasanaeth yn ogystal. Eto mae awgrym cyffredinol fod casglu capasiti o 60kg o wastraff gweddilliol yr wythnos yn sicrhau bod trigolion yn ailgylchu mwy o'u gwastraff. Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn casglu uchafswm o 80kg o ran fwyaf o'n heiddo pob wythnos, h.y. biniau 240 litr pob 3 wythnos.

**Data – pont bwyso**

3.32 Mae'r drefn bresennol o gasglu a phrosesu data am lefelau ailgylchu/ gwastraff yn ddarniog ac angen ei ddiweddaru. Mae data am ganrannau ailgylchu yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru yn chwarterol fel rhan o drefniadau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer monitro lefelau ar draws Cymru. Ond byddai sicrhau data mwy byw yn galluogi'r gwasanaeth i weithredu mewn modd mwy amserol a rhagweithiol.

3.33 Byddai sicrhau data sydd o ddefnydd i ni, ac ar gael yn fwy rheolaidd na'r drefn chwarterol bresennol yn galluogi blaenoriaethu ymdrechion i newid ymddygiad mewn meysydd/ardaloedd lle mae angen gwella. Byddai gallu cymharu data yn dilyn ymyrraeth maes o law o gymorth er mwyn mesur llwyddiant.

3.34 Felly rydem wedi buddsoddi mewn meddalwedd newydd ar gyfer ein pontydd bwyso, a bydd hyn yn ein galluogi inni gael data amserol, gan leihau ein dibyniaeth o gael data gan 3ydd parti. Mae Wrap Cymru ar hyn o bryd hefyd yn cynnal archwiliad ar ansawdd ein data.

**Canolfannau Ailgylchu**

3.35 Mae costau cynnal a rhedeg wyth o ganolfannau ailgylchu yn hafal i £46.99 yr eiddo yma yng Ngwynedd, mae hyn £13.04 yn uwch na chyfartaledd awdurdodau lleol eraill Cymru. Ac er bod wyth canolfan yn y sir, mae chwech o awdurdodau sydd â llai o gyfleusterau yn derbyn mwy o ddeunyddiau fesul eiddo na Gwynedd - rydem ni yn derbyn 176kg fesul eiddo. Mae ein cyfradd dargyfeirio i ailgylchu o'r canolfannau ailgylchu yn 77%.

3.36 Mae gan Gyngor Gwynedd wyth canolfan ailgylchu wedi eu lleoli ar draws y sir - sef y nifer uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod 87% o drigolion Gwynedd o fewn pellter teithio o lai na 20 munud at unrhyw ganolfan. Mae Wrap Cymru yn awgrymu y dylid cael canolfan ailgylchu i bob 50,000 eiddo - mae gan Gyngor Gwynedd ganolfan ailgylchu i bob 8,200 eiddo. Mae ein darpariaeth ar hyn o bryd yn un o'r goreuon o ran cyrhaeddiad trigolion - ond hefyd y drytaf o ran cost fesul eiddo.

3.37 Rydem yn adolygu hygyrchedd ein canolfannau ailgylchu ar hyn o bryd. Un eitem rydem am ailedrych arno yw agor y bagiau duon sydd yn cyrraedd ein canolfannau ailgylchu gan ein trigolion, oherwydd rydem yn gwybod fod llawer o ddeunyddiau ailgylchu yn aml yn y bagiau yma ac yn cael eu taflu i'r sgip gwastraff gweddilliol. Byddwn hefyd yn edrych am gyfleoedd i wella'r safleoedd o safbwynt iechyd a diogelwch a'r gallu i gynnig darpariaeth i allu ailgylchu mwy o wahanol ddefnyddiau

3.38 Byddwn hefyd yn ystyried codi ffi ar waredu rhai eitemau o wastraff, yn enwedig deunyddiau sy'n costio i'r Cyngor eu gwaredu, megis teiars, rwbel ac asbestos. Rydem hefyd am edrych i dynhau pwy sy'n cael defnyddio ein canolfannau, ac ar yr un pryd gwella hygyrchedd mynediad i rai carfannau o'r gymdeithas, e.e. creu 'awr dawel' i drigolion sy'n ei gweld yn anodd archebu 'slot' yn y ganolfan drwy'r drefn bresennol.

3.39 Rydem hefyd am edrych ar greu lleoliad neu siop ail-ddefnyddio ar gyfer y deunyddiau sydd yn dod drwy ein canolfannau ailgylchu. Er dylid clodfori ailgylchu, mae'n bwysig ein bod yn ceisio cychwyn yr hierarchaeth drwy leihau pob math o wastraff, yna ei drwsio a'i ailddefnyddio cyn ei ailgylchu. Rydem yn gweld potensial yma i helpu pobl a lleihau ein costau gwaredu ar yr un pryd. Mae'n debyg byddwn yn edrych am gyfleon partneriaethu i wireddu hyn. Mae hyrwyddo economi gylchol wedi ei adnabod fel un o flaenoriaethau Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd, ac mae ailddefnyddio yn taro'r briff yma.

**Dosbarthu Biniau**

3.40 Mae ein gwasanaeth dosbarthu cynwysyddion yn cael ei weld yn bwysig i'n trigolion. Ond yn ddiweddar mae lefelau cwynion am y gwasanaeth wedi cynyddu yn sylweddol wrth i drigolion orfod disgwyl amser hir am eu cyfarpar. Mae nifer o resymau am hyn, yn cynnwys y galw digynsail a gafwyd gan fusnesau yn dilyn cyflwyno trefniadau casglu newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, daeth yn amlwg fod angen inni adolygu ein holl drefniadau

dosbarthu yn sgil hyn. Rydem ar hyn bryd yn gweithio ar greu gwasanaeth dosbarthu biniau mwy gwydn ac effeithlon, a hefyd yn edrych ar roi rhai o'r cyfarpar llai mewn Siopau Gwynedd a Chanolfannau Ailgylchu, fel bod ein trigolion yn gallu mynd i nôl eitem heb oedi (e.e. cadi cegin, sachau bwyd). Drwy ddefnyddio technoleg a gwneud gwell defnydd o wybodaeth y gweithwyr danfon yn Llwyn Isaf, hyderwn bydd gennym wasanaeth dosbarthu biniau mwy effeithlon yn y misoedd nesaf.

**Gwastraff Masnachol**

3.41 Ym mis Ebrill 2024 cyflwynwyd Rheolau Ailgylchu yn y Gweithle gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gofyn yma yn gosod oblygiadau cyfreithiol ar fusnesau i wahanu'r gwastraff yn yr un modd ag aelwydydd Cymru. Roedd goblygiadau'r ddeddf yn golygu fod Cyngor Gwynedd fel gweithredwr casglu hefyd yn gorfod casglu deunyddiau gwastraff ac ailgylchu ar wahân am y tro cyntaf. Rhaid cyfaddef fod mabwysiadu'r drefn yma ar gyfer gwastraff masnachol wedi bod yn broblemus iawn i'r Cyngor ac mi amlygodd wendidau sylfaenol yn ein systemau a'n trefniadau busnes.

3.42 Oherwydd hyn penderfynwyd adolygu ac ailedrych ar ein busnes gwastraff masnachol, ac ar hyn o bryd rydem yn mynd drwy adolygiad cynhwysfawr o'r busnes gyda chymorth ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru - Partneriaethau Lleol a Wrap Cymru. Fel rhan o'r adolygiad mi fyddwn yn mynd allan i ofyn am adborth gan fusnesau. Rydem yn hyderus byddwn mewn gwell lle yn y flwyddyn newydd gyda strwythur a systemau mwy cadarn ac y gallwn fod gyda gwasanaeth ble all pawb fod yn falch ohono eto.

3.43 Mae sicrhau ffynhonnell o incwm gwastraff masnachol a thai gwyliau yn greiddiol i'r gwasanaeth ac wedi ei adnabod fel un o'n prif risgiau ar gofrestr risg yr Adran.

**Prosesu – preifat / cytundebau**

3.44 Mae natur y gwasanaeth yn golygu fod yna nifer o gytundebau gyda darparwyr allanol am drefniadau derbyn deunydd gwastraff ac ailgylchu yr ydym yn ei gasglu. Un o'r rhain yw trefniadau rhanbarthol lle mae'r Cyngor yn cydweithio gyda chynghorau eraill o'r gogledd ar gytundeb Parc Adfer ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol. Rydem hefyd mewn partneriaeth efo Cyngor Ynys Môn ar gyfer gwaredu gwastraff gardd a chwmni Biogen ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd ar ein safle GwyriAD. Rydem hefyd yn ddibynnol ar gwmnïau preifat lleol a cenedlaethol i drin a phrynu ein gwastraff.

3.45 Mae ein lleoliad ar gyrion y farchnad ym Mhrydain yn rhoi cyfyngiadau arnom o ran cystadleuaeth i werthu ein deunyddiau a hefyd o ran cyrraedd y farchnad o gwbl. Er enghraifft rydem yn cludo ein coed i'w ailgylchu yn ardal Manceinion a chlytiau i'w ailgylchu yn Rhydaman.

3.46 Mae natur y farchnad yn golygu y gall prisiau amrywio o ran yr incwm a dderbynnir am ddeunyddiau sy'n cael eu casglu gan y Cyngor. Mae angen cynnal gwaith pellach i sicrhau bod rheolaeth gadarn ar gytundebau gyda chwmnïau eraill sy'n derbyn ein gwastraff a'r incwm a dderbynnir amdano.

3.47 Rydem wedi penderfynu mai yn safle Caergylchu a Ffridd Rasus fydd ein prif hybiau prosesu gwastraff o hyn allan. Mae Caergylchu yn ganolfan brosesu a dechreuwyd fel prosiect yn 2005 rhwng Antur Waunfawr, Cwmni Gwastraff Mon-Arfon a Chyngor Gwynedd. Yn amlwg gyda Caergylchu bron yn 20 oed, mae'r safle bellach wedi pasio ei addasrwydd i bwrpas.

3.48 Er mwyn ein galluogi i gael y deunyddiau gorau i’r farchnad, ac er mwyn uchafu ein pris gwerthu fesul deunydd, rydem yn gweld bod buddsoddi mewn safle, darpariaeth a chyfleuster newydd yn hanfodol. Mae maint y safle a’r cynnydd sydd wedi bod ar y safle, bellach yn bryder hefyd o safbwynt iechyd a diogelwch. Mae nifer o’r peiriannau sydd yn Caergylchu hefyd wedi cyrraedd diwedd eu hoes gwaith, ac mae costau cynnal a chadw'r peiriannau yma hefyd yn gostus ac yn cynyddu yn flynyddol.

3.49 Rydem hefyd yn trosglwyddo gwastraff a deunyddiau ailgylchu ar draws y sir o un safle trosglwyddo i’r llall drwy ddefnyddio tair lori cludo (hooklifft). Nid yn unig mae hyn yn creu allyriadau carbon diangen, ond mae’n gostus ac yn gallu llygru'r deunyddiau yn ogystal.

3.50 Felly er mwyn sicrhau bod ein gweithrediadau mor effeithlon ac effeithiol a phosibl rydem yn edrych i fuddsoddi mewn dwy ganolfan trin a phrosesu newydd – un yn Caergylchu a chael canolfan prosesu o’r newydd yn Harlech.

3.51 Rydem yn cydweithio efo Wrap Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatblygu’r ddau safle. Mae’r cynlluniau cychwynnol wedi eu derbyn a’r gobaith ydi y bydd gennym achos busnes cryf erbyn mis Mawrth 2025 i gyflwyno i’r Cyngor. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno ein cynnig am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Hyd yn hyn mae’r adborth rydem wedi ei gael gan y Llywodraeth yn bositif.


3.52 Mae safle Harlech hefyd yn cynnig lle inni edrych ar brosesu deunyddiau ailgylchu eraill yn ogystal. Bydd hyn yn golygu y gallwn leihau costau a dibyniaeth ar y sector breifat.

**Gorwariant ac Arbedion**

3.53 Mae gwaith sylweddol wedi digwydd ers trosglwyddo’r Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu i gael gwell rheolaeth ar y gorwariant hanesyddol. Nid yw mor ‘ddu a gwyn’ a stopio gwario i ddod at sefyllfa gyllidol gytbwys mewn un cylch blwyddyn ariannol. Roedd rhaid edrych ar achosion crai’r gorwariant a thaclo hynny yn ofalus, gan fantoli'r gwasanaeth oedd yn cael ei roi i drigolion Gwynedd. Ar ddiwedd 2022-23 roedd gorwariant o fewn y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn £1.6m. Gwelwyd lleihad o £420k y llynedd yn lefel y gorwariant, a rhagwelir y bydd lleihad pellach eleni, a fydd yn golygu gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn o tua £800K.

3.54 Yn ogystal â chael rheolaeth o’r lefel gorwariant, mae cynlluniau arbedion gwerth £1.7m wedi eu hadnabod ar gyfer Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu fel rhan o Strategaeth Arbedion y Cyngor. **Mae’r rhestr o’r arbedion wedi eu gosod yn yr atodiad (Atodiad 2).**

3.55 Os gwireddir y cynlluniau arbedion, a gwireddu lleihad pellach disgwyliedig o £400K ar y gorwariant, bydd y Gwasanaethau wedi lleihau eu cyllidebau o fwy na £2.5m. Mae’r cynlluniau arbedion wedi gorfod cael eu blaenoriaethu i helpu'r bwlch ariannol corfforaethol, cyn taclo’r gorwariant o fewn y gwasanaeth. Petai’r gwasanaeth wedi gallu defnyddio’r cynlluniau i leddfu’r gorwariant, yna mae’r Adran yn ffyddiog byddai’r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu wedi cyrraedd sefyllfa gytbwys a thu hwnt yn ei chyllideb erbyn diwedd 2025/26.




**Mae'r blociau glas yn dangos gwir orwariant am 22/23 a 23/24 ac amcan ar gyfer 24/25. Yna o 25/26 mae'r arbedion yn cael eu tynnu o'r gorwariant i ddangos sefyllfa gronnus ond gan dybio nad ydym yn gallu symud o'r gorwariant tebygol am 24/25 o £800k. Mae'r oren yn dangos arbedion corfforaethol fesul blwyddyn. Mae'r llinell lwyd yn dangos sefyllfa gyllidebol y gwasanaeth os byddem yn defnyddio'r arbedion yn erbyn y gwasanaeth yn unig.

3.56 Fodd bynnag, efo'r cynlluniau sydd gan yr Adran i daclo'r gorwariant yn cael eu gosod yn y strategaeth arbedion mae risg sylweddol na fydd posibl dod a chyllideb gwastraff ac ailgylchu yn gytbwys yn y dyfodol agos.

3.57 Rydem yn cydnabod yn llwyr fod angen i bob gwasanaeth chwarae eu rhan i sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod cyllidebau cytbwys. Mae'r rhan yma yn dangos yn eglur fod y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu wedi cyfrannu at y rhaglen arbedion, ac yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n gynyddol glir erbyn hyn nad oes modd cyflawni sefyllfa o wariant lled-niwtral yn y erbyn y gyllideb, sef un o brif ofynion y briff gwreiddiol. Bydd cyflawni cynlluniau arbedion corfforaethol, tra ar yr un pryd parhau i gyflwyno gwelliannau i sicrhau gwasanaeth o safon i bobl Gwynedd yn her.

**Cerbydau**

3.58 Mae gan y gwasanaeth tua 100 o gerbydau casglu a gwaredu gwastraff. Ar hyn o bryd nid ydym wedi gallu buddsoddi llawer mewn cerbydau casglu gwastraff trydan. Rydem yn credu fod y newidiadau sylweddol wedi bod yn ddigon o ymyrraeth am y tro, a gyda lefelau'r cwynion yn uchel, roedd cyflwyno mwy o newid ble nad oedd yn bosibl rhoi gwarant o'i lwyddiant yn ormod o risg. Yn amlwg mae gan rai awdurdodau lleol eraill yng Nghymru gerbydau casglu ailgylchu trydan, ond mae canfyddiadau Cynllun Fflyd Werdd 2023-2029 (Cabinet 24/01/2023) yn nodi "*nid yw'r dechnoleg trydan wedi gwir gyrraedd y farchnad yma [cerbydau trwm] eto...ddim i'r graddau a fyddai'n effeithiol yng Ngwynedd".* Fodd bynnag, rydem yn parhau i anelu at ddatgarboneiddio ein fflyd erbyn 2030, ond bydd angen inni fel Adran gydweithio yn agos efo'r Gwasanaeth Fflyd i edrych ar y dechnoleg a'r cynllun busnes yn fanwl, oherwydd ar hyn o bryd mae cerbydau trydan tua dwbl pris cerbyd disel.

3.59 Wedi dweud hynny, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, rydem wedi prynu dau gerbyd 'telehandler' trydan sy'n cael eu defnyddio i symud deunyddiau yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r adborth i'r peiriannau yma wedi bod yn bositif iawn, ac wedi rhoi hyder inni fuddsoddi mewn rhai eraill os bydd y sefyllfa ariannol yn caniatáu.

**Safleoedd Ôl-ofalaeth**

3.60 Mae gan y Cyngor tri hen safle tirlenwi gwastraff yn Ffridd Rasus, Cilgwyn a Llwyn Isaf. Mae’r Adran yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ôl-ofalaeth yn digwydd ar y safleoedd hyn drwy samplo'r dŵr a’r nwy, cynnal y system Flare sy’n llosgi’r nwyon, ynghyd â gwaith cynnal a chadw ac adrodd yn gyson i Gyfoeth Naturiol Cymru.

3.61 Yn ddiweddar mae dau o hen safleoedd tirlenwi Gwynedd wedi cael eu trawsnewid yn hafan ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth. Mae’r cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i adfer 74 erw yn Ffridd Rasus (Harlech) a 32 erw yn Llwyn Isaf (Penygroes) i gynefinoedd cyfoethog ac amrywiol ar gyfer planhigion a bywyd gwyllt.

3.62 Bydd y prosiectau yma yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth yn yr ardaloedd a gyda photensial i allu storio carbon. Mae’r gwaith wedi cwmpasu plannu coed a llwyni ym mhob safle, a chynyddu capasiti storio dŵr i ddenu mwy o amffibiaid, pryfed, adar, a mamaliaid naturiol. Mae’r prosiect wedi ei arwain gydag arbenigedd Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Gwasanaeth Bioamrywiaeth a bydd mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i hyn yn ystod yr hydref.

**Datblygiad i’r Dyfodol**

3.63 Mae’r gwasanaeth gwastraff yn wynebu heriau mewnol ynghyd a datblygiadau allanol. Mi fydd cyfundrefn ddiweddaraf o arbedion yn rhoi straen ychwanegol ar y gwasanaeth o ran yr ochr gyllidol. Mae strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, ‘tu hwnt i ailgylchu’ yn rhoi mwy o bwyslais ar gael Cymru yn wlad economi gylchol a fydd mai’n debyg yn gofyn inni ailgylchu deunyddiau newydd o ochr y ffordd a rhoi mwy o bwyslais ar drwsio ac ailddefnyddio.

3.64 Mae datblygiadau cenedlaethol hefyd yn dod a’i heriau. Mae cost gwaredu ein gwastraff gweddilliol ar hyn o bryd dros £4m, a gyda threth newydd ar allyriadau carbon yn debygol o ddod i mewn yn 2028, fe all y costau yma gynyddu o rywle rhwng £0.6m i £1.5m i Gyngor Gwynedd yn unig.

3.65 Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (Extended Producer Responsibilty neu EPR) wedi ei gyflwyno yn raddol ers 2023, gyda’i bwrpas i osod statud gofynnol ar fusnesau sy'n cynhyrchu rhai mathau o gynhyrchion ar y farchnad i dalu'r costau llawn. Mae hyn yn gosod gofynion newydd arnom yng Ngwynedd i samplo'r gwastraff sydd yn mynd drwy ein canolfannau prosesu. Rydem eisoes wedi gosod technoleg camerâu ar ein llinell blastig i fesur faint o blastigion un-tro sy’n cael ei ailgylchu gan rai o’r archfarchnadoedd mawr. Fodd bynnag, fe all EPR hefyd fod yn ffynhonnell ychwanegol o incwm i’r Cyngor o 2025, ond nid yw maint yr incwm yma yn wybyddus ar hyn o bryd.

3.66 Yn ogystal bydd Cynllun Dychwelyd Ernes (Deposit Return Scheme neu DRS) yn cael ei ehangu. Mae'n fath o gyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig, sy'n golygu y bydd gan gynhyrchwyr a mewnforwyr diodydd gyfrifoldebau cyfreithiol newydd dros reoli a chasglu eu cynwysyddion gwag ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio.

3.67 Wrth gwrs yma yng Nghymru mae awdurdodau fel Cyngor Gwynedd yn cynnig gwasanaeth hawdd ar y stepen drws yn barod i ailgylchu gwydr, tuniau a phlastigion. Mae risg wrth gwrs y byddwn yn gweld llai o’r deunyddiau yn dod drwy ein ffrwd ailgylchu, ac felly yn cael effaith ar ein canran ailgylchu a’n hincwm. Fodd bynnag, dylai’r cynllun yma leihau gwastraff yn y bin gweddilliol, cynyddu ailgylchu yn gyffredinol ynghyd a gostwng sbwriel sy’n cael ei daflu ar y stryd ac sydd yn y biniau stryd.

3.68 Mae rhai ardaloedd o Wynedd yn gallu bod yn broblemus inni oherwydd natur wahanol y gymdeithas yno. Mae nifer y cwynion o ddinas Bangor yn uchel, yn bennaf o ardaloedd ble mae myfyrwyr yn byw a ble mae nifer uchel o dai amlfeddiannaeth (HMO). Rhaid nodi yma nad yw hyn yn unigryw i Wynedd. Rydem yn cydweithio yn agos efo'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr, Cyngor Dinas Bangor ac adrannau eraill o'r Cyngor i geisio cael datrysiadau i rai o'r materion hyn, ond yn amlwg nid yw'r adnoddau na'r cyllid yn caniatáu inni allu gwneud pob dim.

## 4. Prif Gasgliadau a rhaglen waith arfaethedig

4.1 Mae'r Adran wedi gweithredu ar nifer o faterion ac wedi gweld cynnydd ar amryw o brosiectau yn ystod y ddwy flynedd bellach. Mae'r Adran wedi llunio rhaglen waith manwl i'n galluogi i adolygu rhai meysydd ymhellach a chynnig datrysiadau i sicrhau fod y maes Gwastraff ac Ailgylchu yn cynnig gwasanaethau effeithlon, safonol a diogel, a'n bod yn parhau i gyfarch targedau ailgylchu uchelgeisiol Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Rydem yn dawel hyderus ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir ac ein bod yn gallu dangos gwelliant yn y gwasanaethau.

4.2 Y prif gamau nesaf fydd cyflwyno ac ymgynghori ar y Strategaeth, cyd-weithio efo'n partneriaethau megis Llywodraeth Cymru a Wrap Cymru i ddatblygu achos busnes ar gyfer canolfannau prosesu newydd, a chynllunio rhaglen waith ar gyfer yr arbedion a all fod yn gynhennus, megis amlder casglu.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – rhaglen waith gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu
Atodiad 2 – rhestr o arbedion gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu

| | | 2023 | | | 2024 | | | | | | | | | | | | 2025 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Q3 | | | Q4 | | | Q1 | | | Q2 | | | Q3 | | | Q4 | | | Q1 | | | Q2 | | | Q3 | | |
| **Prif thema** | **Enghreifftiau o'r is benawdau** | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gor | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
| **G1 Adolygu trefniadau gweithio casglwyr gwastraff/ ailgylchu** | Adolygiad cynhwysfawr o'r holl gylchdeithiau (gwaith parhaus) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Adolygiad o drefniadau / oriau gweithio | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Datrysiad i wyliau cronnus gweithwyr | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Cyflwyno technoleg "in cab" ar gyfer cerbydau casglu gwastraff | | | Cam 1 - Cerbydau casglu ailgylchu / gwastraff a dosbarthu biniau | | | | | | | | | | | | | Cam 2 - Cerbydau masnachol, clinigol, clytiau a gardd | | | | | | | | | | | |
| | Uwchraddio camerâu ar holl gerbydau gwaith | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Gwerthuso holl staff y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Sefydlu strwythur De / Gogledd - yn ymarferol ac mewn egwyddor | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G2 Adolygu trefniadau casglu ailgylchu gan gynnwys cynnydd disgwyliedig lefelau ailgylchu i'r dyfodol** | Treialu trefn gasglu ailgylchu drwy sachau hessian mewn ardaloedd peilot | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Gwerthuso a chreu achos busnes i edrych ar amlder casglu gwastraff gweddilliol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G3 Adolygu trefn gwynion** | Penodi swyddogion sy'n agos at y gwasanaethau i ddelio efo cwynion. Cydweithio efo TG / Gofal Cwsmer i sicrhau gwelliant parhaus | | | | | | | | | | Rhan 1 | | | | | | | | | Rhan 2 | | | | | | | | |
| **G4 Data sydd o ddefnydd ac ar gael yn rheolaidd** | Cyflwyno system Pontydd Bwyso newydd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Sicrhau bod ein data yn amserol ac ein bod yn ei ddadansoddi er mwyn gweithredu yn fwy blaengar (gwaith parhaus) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G5 Newid ymddygiadau i leihau lefel gwastraff gweddilliol ac uchafu ailgylchu** | Datblygu rhaglen benodol sy'n rhoi ffocws clir i godi ymwybyddiaeth / newid ymddygiad (gwaith parhaus) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Adolygiad cynhwysfawr o'n Canolfannau Ailgylchu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G6 Cynllun asedau gwastraff** | Datblygu canolfan prosesu a thrin addas i bwrpas yn Caergylchu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Datblygu canolfan prosesu a thrin addas i bwrpas yn Ffridd Rasus | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G7 Rheoli gorwariant [yn bennaf yn deillio o salwch a goramser y gweithlu]** | Oriau goramser a weithir (monitro parhaol) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Lefelau salwch (monitro parhaol) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Ffurfioli strwythur y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G8 Sicrhau bod rheolaeth gadarn ar gytundebau gyda phartïon eraill sy'n derbyn ein gwastraff** | Adolygu cytundebau 3ydd parti | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Parc Adfer (gwaith parhaus) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | GwyriAD | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaeth Gwastraff Masnachol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G9 Cynllun Cyfathrebu** | Strategaeth Cyfathrebu (yn dilyn mabwysiadu'r Strategaeth Wastraff) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **G10 Trefniadau Iechyd a Diogelwch** | Iechyd a Diogelwch (gwaith parhaus) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | |
|---|---|
| **G11 Sefydlu strategaeth gadarn ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu.** | Llunio, ymgynghori a mabwysiadu Strategaeth Wastraff |
| **G12 Adolygu trefniadau presennol y gwasanaeth dosbarthu biniau, bocsys a sachau i drigolion** | Adolygu'r gwasanaeth Dosbarthu Biniau |
| **G13 Sefydlu rhaglen waith ar gyfer amnewid cerbydau i rai carbon isel** | Paratoi adolygiad i ddatgarboneiddio'r fflyd |

**Atodiad 2 – rhestr o arbedion gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu**

| **Teitl** | **Arbediad** | **Statws** |
|---|---|---|
| Rhesymoli trefniadau dosbarthu cynhwysion | £50K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Lleihau costau cynnal a chadw oherwydd difrod i gerbydau o 10% | £30K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Gwella effeithlonrwydd y defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff | £70K | Rhai risgiau i'w gyflawni |
| Gwell rheolaeth ar ddyledion gan gwsmeriaid masnachol | £30K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Gwasanaeth Gwastraff a Busnes - Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol | £150K | Rhai risgiau i'w gyflawni |
| Marchnata Gwasanaethau Masnachol - cynyddu incwm | £40K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Cynyddu incwm o werthiant deunyddiau ailgylchu, yn enwedig wrth i wastraff masnachol gael ei gasglu ar wahân o 2023/24. | £150K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Adolygu Cytundebau Gwastraff | £400K | Risgiau i'w gyflawni |
| Caniatáu i rai mathau o gwmnïau masnachol ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu | £50K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Cynyddu incwm drwy gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau | £360K | Rhai risgiau i'w gyflawni |
| Lleihau niferoedd casgliadau gwastraff gardd o 25 i 22 y flwyddyn | £20K | Ar drac i'w gyflawni yn amserol |
| Addasu trefniadau presennol casglu clytiau un tro. | £147K | Angen ei graffu ymhellach |
| Amlder casglu gwastraff gweddilliol | £200K | Angen ei graffu ymhellach |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 12 Medi, 2024 |
| **TEITL** | Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd Gweithrediad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) |
| **AWDUR** | Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Berwyn Parry Jones |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Mae’r Cyngor yn gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn), gan fod diffyg rheolaeth o gŵn gan berchnogion yn cael effaith negyddol ar ein cymunedau gyda’r effaith gronnus o beidio â chlirio neu godi baw ci yn cael effaith andwyol ar ddelwedd cymunedau a gall fod yn risg i iechyd pobl.

Mae gorchmynion rheoli cŵn wedi bodoli ers 2013 ac erbyn hyn wedi ei ymestyn hyd at 14 Awst, 2027.

Mae pwerau’r gorchymyn yn ymwneud a’r materion isod:

- pheidio â chlirio neu godi baw ci
- gadael i gi fynd ar dir lle mae cŵn wedi eu gwahardd
- peidio rhoi, a chadw ci ar dennyn pan ofynnir i’r person wneud hynny gan swyddog awdurdodedig.

Mae diffyg cydymffurfio gyda’r gorchymyn yn gallu arwain at rybudd cosb penodedig o £100 (wedi ei ostwng i £75, os telir o fewn 10 diwrnod gwaith) neu erlyniad gyda chosb uchafswm o £1,000.00.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Sut mae’r gorchmynion yn cael eu gweithredu ynghyd â diweddariad i ymestyniad y gorchymyn
- Faint o ddirwyon sydd wedi eu rhoi i berchnogion
- Pa ymgyrchoedd sydd yn cael eu cynnal i amlygu cyfrifoldebau perchnogion cŵn.

**3. Crynodeb a’r Materion Allweddol**

- Gofyn am farn y Pwyllgor Craffu a fydd angen i ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r gorchymyn yn y dyfodol.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. Sut mae’r gorchmynion yn cael eu gweithredu ynghyd â diweddariad i ymestyniad gorchymyn.

Mae’r Gorchymyn Gwarchod Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) yn cael ei weithredu gan y Tîm Gorfodaeth Edrychiad Stryd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, ymateb i gwynion, patrolio, rhoi cosbau penodedig, codi ymwybyddiaeth a gweithgarwch atal eraill, fel arwyddion.
Mae pwerau i roi cosbau penodedig am droseddau Rheoli Cŵn ar draethau hefyd wedi'u dirprwyo i swyddogion o Wasanaeth Morwrol y Cyngor.

Yn ogystal â gorchmynion rheoli cŵn, mae Tîm Gorfodaeth Edrychiad Stryd hefyd yn gyfrifol am nifer o ddyletswyddau gorfodi eraill, gan gynnwys sbwriel a gwastraff, tipio anghyfreithlon, graffiti a phosteri anghyfreithlon. Mae'r Tîm yn cael ei arwain gan Uwch Swyddog sy'n rheoli 4 Warden/Swyddog, sy'n gweithredu ledled Gwynedd. Maent yn rhan o'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd mwy ac yn gweithio mewn partneriaeth agos iawn â Gwasanaethau Glanhau Stryd a'r Tîm Tacluso Ardal Ni.

Cymeradwywyd ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Rheoli Cŵn) 2021 heb unrhyw newidiadau am gyfnod o dair blynedd hyd at 14 Awst 2027. Roedd yn ofynnol cynnal ymgynghoriad cyhoeddus wrth baratoi ymestyniad i’r gorchymyn cyfredol ac mae crynodeb o ganlyniadau’r ymgynghoriad cyhoeddus yn Atodiad 2 (AT2).

4.2. Faint o rybuddion/dirwyon sydd wedi eu rhoi i berchnogion.

Mae’r nifer o gosbau penodedig a roddwyd am droseddau Rheoli Cŵn ar gynnydd ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â throseddau baw cŵn a thorri parthau gwahardd. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o berchnogion cŵn yn ofalus iawn ac yn barod i ddilyn mentrau codi ymwybyddiaeth. Felly, ystyrir cyhoeddi cosb benodedig neu erlyniad fel dewis olaf, sy'n targedu'r lleiafrif sy'n methu â chydymffurfio.

Mae’r tabl isod yn cofnodi nifer o rybuddion/dirwyon sydd wedi eu cyflwyno gan y swyddogion am y flwyddyn 2023/24 ac y flwyddyn gyfredol.

| **Blwyddyn** | **Baw Cŵn** | **Gwaharddiadau** | **Cŵn ar dennyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **2023 - 24** | 21 | 8 | 0 | **29** |
| **2024 - (5 mis cyntaf)** | 8 | 8 | 0 | **16** |

4.3. Pa ymgyrchoedd sydd yn cael eu cynnal i amlygu cyfrifoldebau perchnogion cŵn.

Mae elfen bwysig iawn o'r gwaith yma yn gynnwys ymgyrchoedd addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymysg perchenogion cŵn. Mae hyn yn cynnwys:

- Arwyddion rheolaethol sy'n rhoi cyfarwyddyd, e.e. "Glanhewch", "Dim Cŵn", "Cadwch at y Llwybr" a'r holl arwyddion sy'n dynodi parthau gwahardd tymhorol ar draethau.

- Amrywiaeth o arwyddion codi ymwybyddiaeth, yn gynnwys rhai sydd wedi cael ei dylunio gan bobl ifanc, yr arwyddion "Bagiwch a Biniwch", arwyddion "Gadewch Olion Pawennau yn Unig", ayyb.

- Mae'r Tîm wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd yn lleol (e.e. Dyffryn Nantlle, Blaenau Ffestiniog), argaeledd ledled y Sir o fagiau/pecynnau baw cŵn rhad ac am ddim, ac yn fwy diweddar, wedi gweithredu Ymgyrch Genedlaethol dan faner Caru Cymru.

## 5. Ymgynghori

Mae'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o drefn ymestyn y gorchymyn yn cefnogi a chyfiawnhau parhad o'r pwerau rheoli cŵn, sy'n gynnwys rheoli baw cŵn, gwaharddiadau a chŵn ar dennyn o dan gyfarwyddyd.

Roedd yn glir hefyd bod y farn am y drefn gyfredol yn un teg, ac sydd yn adlewyrchu dyheadau y cyhoedd yn gyffredinol i weld y mannau cyhoeddus yn rhydd o faw ci a hefyd yn ystyried anghenion y rheini sydd angen ymarfer eu cŵn.

Gweler Atodiad 2 (AT2) am ddadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'.

Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau. Rydym yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r 'pum ffordd o weithio'.

Mae mewnbwn trigolion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn allweddol bwysig mewn unrhyw ymgynghoriad sy'n ymwneud a rheoli cŵn, ac mae cydweithio yn agos yn rhan allweddol o'r broses gorfodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Yng nghyd-destun rheoli cŵn rydym eisoes yn cydweithio gyda'r canlynol:

- **Mewnol a Trawsadrannol** - Gwasanaethau Glanhau Strydoedd, Tîm Tacluso Ardal Ni, Difa Pla, Morwrol a Gwarchod y Cyhoedd.

- **Yn lleol** - Aelodau, Cynghorau Cymuned, Trigolion, Ysgolion a phobl ifanc.

- **Cenedlaethol** - Llywodraeth Cymru, Heddlu a Chadwch Gymru'n Daclus.

Mae'r broses gorfodi a chodi ymwybyddiaeth er mwyn atal neu leihau problemau yn fater parhaol sydd angen ymrwymiad parhaus, yn cynnwys ystyried syniadau newydd arloesol ac ymarfer da ehangach.

Mae canfyddiadau a disgwyliadau yn newid a chynyddu dros amser ac mae ein profiad diweddar wedi amlygu cynnydd yn y nifer o berchenogion a chŵn newydd sydd yn amlygu'r angen i gynllunio i'r dyfodol.

Yn ychwanegol i'r angen i integreiddio gwasanaethau yn fewnol, mae angen parhau i gydweithio a datblygu perthnasau newydd ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Yn 2021, cafodd asesiad cydraddoldeb manwl ei baratoi yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a daethpwyd i'r casgliad nad oedd rheswm teilwng wedi ei ddatgelu i beidio â pharhau gyda'r broses o gyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig. Mae'r ddogfen a weler yn Atodiad 2 (AT2) wedi ei ddiweddaru yn 2024, er adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad newydd Atodiad 1 (AT1). Nid yw adolygiad yr asesiad wedi amlygu ardrawiad fyddai yn cyfiawnhau addasu neu beidio ymestyn y gorchymyn.

## 8. Camau Nesaf

- Er monitro gweithrediad y gorchymyn a pha effaith mae'n ei gael, bydd y tîm yn gweithredu yn unol â hyfforddiant penodol, deddfwriaeth a chanllawiau gweithredu. Rydym yn monitro'r nifer o Ddirwyon, Cwynion (Ffos), Arolwg Glendid Strydoedd - sydd yn cynnwys y canran o strydoedd ble mae baw cŵn yn bresennol. Rydym hefyd yn cadw cofnodion perthnasol i ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, datganiadau i'r wasg, ayyb.
- Monitro'r niferoedd o ddirwyon ac ymateb i broblemau baw ci fydd yn codi dros gyfnod y gaeaf - cynnydd sylweddol yn y gaeaf oherwydd nosweithiau tywyll
- Gweithredu ar unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Craffu.

**Gwybodaeth Cefndir**

Adroddiad Cabinet - Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn
Linc - Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 27ain Gorffennaf, 2021, 1.00 y.h. (llyw.cymru) – Eitem 10

Linciau defnyddiol eraill:

Hysbysiadau cosbau penodedig ar gyfer troseddau amgylcheddol: canllawiau | LLYW.CYMRU
Taclo-Baw-Cwn-crynodeb-min.pdf (keepwalestidy.cymru)
Ailystyried-gorfodaeth-am-daflu-sbwriel-a-chwn-yn-baeddu.pdf (keepwalestidy.cymru)

**Atodiadau**

- AT1 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb GDMC Rheoli Cŵn (Cymraeg)
- AT2 – Canlyniadau Ymgynghoriad Gorchmynion Cŵn (Cymraeg)

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Disodlwyd y sail gyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Rheoli Cŵn gwreiddiol y Cyngor gan ddeddfwriaeth fwy diweddar sy'n golygu bod angen datblygu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn o'r newydd.

Roedd Gorchmynion Rheoli Cŵn 2013 yn ymwneud ag atal baeddu cŵn, gwahardd cŵn o rai ardaloedd sensitif fel caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon gyda chyfyngiadau tymhorol ar rai traethau ymdrochi a'r gofyniad am gŵn ar dennyn o dan gyfarwyddyd swyddog awdurdodedig.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

1 - 01/04/2021 – fersiwn cyntaf.
2 - 07/07/2021 – wedi'i diweddaru
3 – 22/07/2024 – ymgynghori ar ymestyn y gorchymyn am 3 blynnedd hyd at 2027

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Pobl Gwynedd
Staff y Cyngor
Yr Heddlu
Cadwch Gymru Daclus (Faner Las)
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Assistance Dogs UK
Dogs Trust
Kennel Club
Fforwm Mynediad

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Gorchymyn Arfaethedig, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod yn dilyn yr etholiad i Senedd Cymru ar 6 Mai 2021.
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus bellach yn 2024 i gael adborth ar y bwriad i ymestyn cyfnod y gorchymyn.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn 2021 derbyniwyd cyfanswm o 1,324 o ymatebion i'r holiadur. Yn ogystal, derbyniwyd cyfanswm o 7 e-bost Yn 2021neu neges ar wahân yn mynegi barn ar yr ymgynghoriad.

At ei gilydd, roedd mwyafrif clir o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur yn gefnogol o gynnwys y Gorchymyn Arfaethedig fel y mae. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y GDMC i gynnwys rheolau ychwanegol.

Mae adroddiad manwl o'r ymateb a ddaeth i law o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

Yn 2024 derbyniwyd cyfanswm o 1,171 o ymatebion i'r holiadur. Yn ogystal, derbyniwyd cyfanswm o 6 e-bost neu neges ar wahân yn mynegi barn ar yr ymgynghoriad.

Roedd y mwyafrif clir o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur newydd yn gefnogol iawn i'r bwriad o ymestyn cyfnod y gorchymyn fel y mae. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y gorchymyn i gynnwys rheolau ychwanegol.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- Mae nifer y cwynion am effaith baeddu cŵn wedi bod yn cynyddu'n lleol ac mae pryderon o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfryngau cenedlaethol.

- Mae effaith y pandemig presennol wedi cyfrannu at waethygu'r sefyllfa bresennol. Mae mwy o gŵn yn cael eu cerdded yn amlach ac mae cynnydd sylweddol ym mherchnogaeth cŵn wedi cael ei adrodd yn eang.
- Yn unol â chanlyniadau gwaith ymchwil Cadwch Gymru'n Daclus gall rhai grwpiau, fel plant, y rhai â nam ar eu golwg a defnyddwyr cadeiriau olwyn fod yn fwy agored i gyswllt damweiniol â baw cŵn a'r pathogenau (e.e. tocsocariasis) y gallai eu cynnwys.

**2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Mae adroddiad manwl o'r ymateb a ddaeth i law o'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod o'r ymgynghoriad na fel arall. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod o'r ymgynghoriad na fel arall. |
| **Anabledd** | Negyddol a Positif | Codwyd pryderon o ran anabledd. Mae atebion yr ymgynghoriad i'r cwestiwn am nodweddion penodol yn awgrymu y byddai'r gorchymyn yn cael effaith ar bobl anabl (37 ateb).<br><br>Yn benodol, codwyd pryderon am fynediad pobl anabl at fannau heb waharddiadau ar draethau neu am fethu mynd â'r ci am dro yn lleol os oedd mwy o lefydd yn cael eu gwahardd. Roedd rhai yn nodi anghenion iechyd meddwl pobl anabl i allu mynd allan gyda'u cŵn a'r angen i sicrhau nad oedd cyfyngiadau pellach yn effeithio ar hynny. "I have a disability and the dog nudging me to take her for a walk forces me to go out, so yes i feel that it would effect us unfairly". Nodwyd fod hyn yn effeithio ar ofalwyr. Nodwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn ychwanegol broblemau i'r rhai sy'n methu gyrru am unrhyw reswm, gan gynnwys anabledd.<br><br>Gall pathogenau (e.e. tocsocariasis) o faw cŵn effeithio rhai pobl hefo cyflyrau penodol yn waeth.<br><br>Roedd eraill yn dweud y byddai'r GDMC yn bositif i bobl anabl er mwyn datrys problemau baw ci a diogelwch.<br><br>Mae'r rheol gwahardd cŵn yn cynnwys eithriad arbennig i unrhyw berson –<br>(a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall;<br>(b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu<br>(c) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddeheurwydd llaw, ei gydlyned corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen a nodir yn y Gorchymyn ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.<br><br>Yn ogystal mae'r rheol bod gofyn clirio baw ci yn cynnwys eithriad arbennig i unrhyw berson -<br>(a) sydd wedi ei gofrestru fel person dall; neu<br>(b) sydd ag anabledd sydd yn effeithio ar ei symudedd, ei ddeheurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu symud fel arall teclynnau pob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen a nodir yn y Gorchymyn ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.<br><br>Yn yr amgylchiadau, ceir darpariaeth briodol i sicrhau na fyddai pobl anabl dan anfantais o ganlyniad i'r GDMC. Ystyrir bod y risg o bobl anabl yn methu â chael mynediad i draethau neu leoliad penodol o ganlyniad i'r GDMC wedi ei leihau i'r eithaf. Er hynny, buasai'r Cyngor yn fodlon ymchwilio unrhyw anawsterau mynediad penodol ar draethau a chywiro'r rhain ble'n ymarferol. Mae angen pwysleisio bod ddim bwriad i ymestyn maint y parthau gwahardd hanesyddol, na chynyddu'r nifer. |
| **Rhyw** | Negyddol | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn y cwestiwn am nodweddion penodol mae 2 fenyw wedi nodi fod angen sicrhau nad yw'r gwaharddiadau yn golygu fod yn rhaid i ferched gerdded eu cŵn mewn ardaloedd unig.<br><br>Nid bwriad y gorchymyn ydi atal cŵn a'i pherchenogion o fynediad i unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus.<br><br>Roedd 4 sylw yn ymwneud â theuluoedd un rhiant a'r broblem o fynd â'r plant a'r ci am dro a chael mynediad at fannau chwarae. Mae ystadegau'n dangos fod y mwyafrif llethol o deuluoedd un rhiant gyda benyw fel penteulu felly mae hynny am effeithio merched yn fwyaf.<br><br>Mae ystadegau'n dangos fod merched hefyd yn dueddol o fod â mwy o gyfrifoldebau gofalu na dynion, am oedolion a phlant, felly mi fydd unrhyw sylwadau sy'n ymddangos yn y rhan am deuluoedd ifanc o dan oedran ac am ofalwyr yn gyffredinol yn berthnasol yma.<br><br>Pwrpas y gwaharddiadau mewn mannau chwarae ydi i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed. Nid yn unig yw'r effaith annifyr o weld baw cŵn yn broblem, ond hefyd y problemau afiechyd sy'n gysylltiedig ag ef, e.e. mae tocsocariasis yn gallu arwain at ddallineb. |
| **Oedran** | Positif a negyddol | Mae dwy garfan yn cael eu heffeithio'n benodol yma.<br><br>Teuluoedd ifanc a phlant:<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi ymateb i'r cwestiwn cydraddoldeb penodol ac wedi sôn am oedran wedi nodi problemau i deuluoedd hefo plant ifanc sydd angen mynd â'r plant â'r ci allan yr un pryd yn enwedig i'r parc. Mae un person yn dweud "Feels like I am being restricted rather than the council taking enforcement action againt dog owners that breach dog fouling rules."<br><br>Eto, pwrpas y gwaharddiadau mewn mannau chwarae ydi i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed ac afiechyd.<br><br>Mae un ymatebydd wedi nod fod peidio gadael i gi fod o fewn 2 fetr o fan chwarae yn afresymol a byddai'n syniad cael lle dynodedig, oddi wrth y giât, i glymu ci yn saff. Un arall yn cynnig y dylid cael sedd i rieni tu allan i'r cae chwarae i wylio'r plant. Un person wedi dweud "As a parent I find some of the exclusion zones exclude me from supporting my family in their sporting activities". |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r cyfyngiad 2 medr ond yn berthnasol i gaeau chwaraeon (e.e. lleiniau rygbi a phêl droed) a ddim yn effeithio ar gyffiniau caeau chwarae plant.<br><br>Mae ymweliadau i'r traeth hefyd wedi cael sylw.<br><br>Roedd sylwadau hefyd yn nodi y byddai'r gwaharddiadau yn bositif oherwydd problemau baw ci, diogelwch (cŵn oddi ar dennyn) a bod rhai plant ofn cŵn, gyda dau yn sôn am blentyn yn rhedeg i'r lôn i osgoi ci.<br><br>Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal Arolwg Digonolrwydd Chwarae statudol ble fydd cyfle i ystyried anghenion plant a rhieni.<br><br>Pobl hŷn:<br><br>Mae pobl hŷn yn ystadegol fwy tueddol o fod ag anawsterau symudedd ayb felly mae rhai o'r sylwadau ar anabledd am fod yn berthnasol.<br><br>Mae nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn ar nodweddion cydraddoldeb yn sôn fod perchen ci yn cael effaith positif ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl hŷn a sut y byddai cyfyngiadau pellach yn cael effaith ar hynny. Rhai yn sôn am yr angen i allu cerdded ci yn lleol: "preventing people exercising their dog on local beaches could discriminate ... elderly dog owners living near these beaches who cannot drive or access an alternative.<br><br>Mae un taid wedi nodi y byddai gwaharddiadau pellach yn creu problemau wrth fynd â'r wyrion am dro. Mae un arall wedi dweud fod baw cŵn yn broblem a byddai'n haws mynd â'r wyrion am dro.<br><br>Mae'r sylw sy'n nodi'r angen i bwysleisio bod ddim bwriad i ymestyn maint y parthau hanesyddol, na chynyddu'r nifer yn berthnasol yma.<br><br>Roedd gan rhai pobl hyn pryderon bod cŵn oddi ar dennyn yn gallu fod yn beryglus a bwriad yr hawl yn y gorchymyn i gyfarwyddo perchennog i roi ci afreolus ar dennyn ydi i helpu lliniaru'r sefyllfa yma.<br><br>Toxicara<br><br>Mae nifer o gŵn wedi'u heintio gyda pharasitiaid sydd yn gallu achosi niwed i bobl, yn enwedig plant a phobl fregus. Mae Tocsocariasis yn afiechyd sydd yn cael ei achosi gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | wyau o fwydyn Toxicara sydd yn cael ei drosglwyddo o gŵn i bobl drwy wastraff cŵn neu bridd heintus. Gall yr haint arwain at salwch a hyd yn oed dallineb. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | - | Nid oes effaith wedi ei adnabod |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | - | Nid oes effaith wedi ei adnabod |
| **Ailbennu rhywedd** | - | Nid oes effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Nid oes unrhyw sylwadau ychwanegol wedi eu gwneud ar sail beichiogrwydd a mamolaeth heb law am y rhai sydd i'w gweld dan blant a theuluoedd ifanc yn y nodwedd Oedran.<br><br>Yn gyffredinol, mae tocsocariasis yn fwy cyffredin mewn plant ifanc ac oedolion. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | - | Nid oes effaith wedi ei adnabod |

*** Dileu yn ôl y gofyn**

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Mae'r mater o fynediad, yn enwedig at draethau, wedi cael ystyriaeth yn 3.1 |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Cyfle cyfartal i blant gael lle addas i chwarae, ac i ddefnyddwyr cadair olwyn mewn amgylchedd glan a diogel |

| | | |
|---|---|---|
| **Meithrin perthnasau da** | Dim | Nid oes effaith wedi ei adnabod |
| **Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol** | Ydi | Mae amgylched glan a diogel yn fuddiol i les yr economi. |

*** Dileu yn ôl y gofyn**

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nodwyd effeithiau iechyd cadarnhaol, yn enwedig i blant, gydag amgylchedd glân a diogel i bawb. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith sylweddol negyddol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | **X** |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Parhau hefo'r ymgynghoriad er mwyn casglu mwy o wybodaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae unrhyw effeithiau negyddol sydd wedi cael eu hamlygu yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael ystyriaeth fanwl yn rhan 3.1.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Dim yn berthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Defnydd o sustemau gofal cwsmer y Cyngor (Ffos) ble fydd unrhyw gwynion ac ymholiadau ynglŷn â'r polisi yn cael ei gofnodi, ynghyd a chofnod o unrhyw weithred ddilynol a datrysiadau.

Gwireddu - Bydd cynllun gweithredu yn sicrhau bod y trefniadau gweithredol newydd mewn lle yn amserol

Bydd y nifer o ymyriadau gorfodaeth ar gyfer diffyg cydymffurfio a'r polisi yn cael ei gofnodi.

**ATODIAD 2**

**CANLYNIADAU YMGYNGHORIAD GORCHMYNION RHEOLI CŴN 2024**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus:**

Fel rhan o'r bwriad i ymestyn y gorchymyn cyfredol, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cefnogi a chyfiawnhau parhad o'r pwerau rheoli cŵn, sy'n cynnwys rheoli baw cŵn, gwaharddiadau a chŵn ar dennyn o dan gyfarwyddyd.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw ar wefan y Cyngor am gyfnod o bythefnos o'r 22/07/24 dan y 05/08/24. Rhannwyd datganiadau ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn ogystal â datganiad i'r wasg er mwyn sicrhau bod ystod eang o bobl yn ymwybodol o'r cyfle i rannu eu barn.


Anfonwyd neges yn uniongyrchol i glercod Cynghorau Cymuned, aelodau o'r Heddlu, adrannau eraill o'r Cyngor ac amryw o fudiadau sy'n ymwneud a materion Rheoli Cŵn fyddai'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad o ymestyn y gorchymyn.


Rhannwyd holiaduron papur i'r rhai oedd yn methu ymateb ar-lein.

**Prif faterion â amlygwyd:**

Weler grynodeb o brif ganlyniadau'r ymgynghoriad isod.

Nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad – **1171**






**Gwrthwynebwyr:**

O'r 231 roedd yn gwrthwynebu roedd 51 (o'r rheiny bu ychwanegu sylwadau) wedi cyfeirio yn benodol at draethau fel y prif reswm am wrthwynebu. Mae canran yn gwrthwynebu yn debyg iawn i'r ymgynghoriad yn 2021.

**Traeth "Marine" Criccieth:**

Roedd y Gwasanaeth Morwrol wedi adrodd bod nifer o drigolion ac ymwelwyr Criccieth yn cwyno am ddiffyg lle i fynd a chŵn oherwydd parth gwahardd ar hyd y ddau draeth - Promenâd a "Marine". Ar sail hyn cafodd y parth gwahardd Traeth "Marine" ei dileu yn 2021.

Yn 2024 bu 13 yn gwrthwynebu i'r ymestyniad ar y sail eu bod eisiau gweld y Cyngor yn ail-sefydlu parth gwahardd ar draeth "Marine".

**Kennel Club a Dog's Trust:**

Roedd yr ymatebion gan y ddau grŵp arbenigol, sy'n cynrychioli perchnogion cŵn, yn gefnogol i'r nod o ymestyn hyd y gorchymyn presennol.

**Casgliadau:**

Roedd mwyafrif clir o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur yn gefnogol o gynnwys y gorchymyn fel ag y mae, h.y. seiliedig ar y farn bod y drefn gyfredol yn un teg. Roedd hyn yn adlewyrchu dyheadau'r cyhoedd yn gyffredinol i weld y mannau cyhoeddus yn rhydd o faw ci a hefyd yn ystyried anghenion y sawl sydd angen ymarfer eu cŵn. Nid oedd consensws o blaid ehangu sgôp y gorchymyn i gynnwys rheolau ychwanegol.

Argymhellir felly bod y meini prawf o dan Adran 59 o Ddeddf 2014 wedi eu cyrraedd ac ein bod yn bwrw mlaen i gymeradwyo GDMC yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 12 Medi 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mai 2024.

2. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, derbyniwyd cais i'r Pwyllgor flaengraffu 'Ffioedd Parcio' cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad. Cytunodd y Cadeirydd i'r cais er mwyn sicrhau bod craffu yn cael mewnbwn.

3. Yn sgil hyn, cafwyd trafodaeth yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2024 yng nghyswllt pa eitem y dylid ei ail-raglennu i'w graffu o'r cyfarfod yma i gyfarfod arall, unai 'Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan' neu 'Gorchmynion Rheoli Cŵn'. Daethpwyd i'r casgliad y dylid holi'r adrannau pa mor amserol byddai craffu'r eitemau yng nghyfarfod mis Medi.

4. Yn dilyn derbyn ymatebion gan yr adrannau, ymgynghorwyd gyda'r Cadeirydd. Blaenoriaethwyd yr eitem 'Gorchmynion Rheoli Cŵn' i'w graffu yn y cyfarfod yma gan ail-raglennu'r eitem 'Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan'. Mae ail-raglennu'r eitem hon yn rhoi cyfle i'r ffrwd gwaith yma ddatblygu ymhellach. Drwy graffu'r eitem yn hwyrach yn y flwyddyn bydd mwy o gyfle i graffu ychwanegu gwerth.

5. Gan mai dwy eitem sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 20 Mawrth 2025, awgrymir y dylid ychwanegu'r eitem i raglen y cyfarfod yna.

6. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2024/25

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **16/5/24** | • Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd |
| | • Clwyf Gwywiad yr Onnen | Mater ar y gofrestr risg |
| | | |
| **12/9/24** | • Ffioedd Parcio | Blaengraffu |
| | • Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gorchmynion Rheoli Cŵn | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **7/11/24** | • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion | Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Cynllunio a Chymunedau Cymraeg | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | | |
| **23/1/25** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | • Toiledau Cyhoeddus | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023 |
| | | |
| **20/3/25** | • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth | Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024 |
| | • Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |

**Eitemau i'w rhaglennu yn 2025/26 -** Gwasanaeth Edrychiad Stryd, Clwyf Gwywiad yr Onnen